



# Rhannu delweddau noeth a hanner noeth

Ymateb i ddigwyddiadau a diogelu plant a phobl ifanc

PHOTO REDACTED DUE TO THIRD PARTY RIGHTS OR OTHER LEGAL ISSUES

## Canllawiau

Dogfen ganllawiau: rhif 266/2020

Dyddiad cyhoeddi: Rhagfyr 2020

# Rhannu delweddau noeth a hanner noeth

## Cynulleidfa

Mae'r ddogfen hon wedi cael ei llunio gan Lywodraeth Cymru fel rhan o Weithgor Addysg Cyngor y DU ar Ddiogelwch ar y Rhynggrwyd (UKCIS) mewn ymgynghoriad â Chyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu (NPCC), Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan (AWSLCP), heddluoedd, grŵp cenedlaethol Diogelu mewn Addysg (SEG), consortia rhanbarthol, y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant (NSPCC) a rhanddeiliaid allweddol eraill.

Mae'r cyngor hwn ar gyfer y person diogelu dynodedig (DSP), penaethiaid ac uwch dimau rheoli mewn ysgolion, colegau a lleoliadau addysg eraill yng Nghymru. Dylai staff eraill weld y crynodeb o sut i reoli achosion, ac mae hwn ar gael ochr yn ochr â'r canllawiau hyn ar Hwb.

Bydd hefyd o ddiddordeb i awdurdodau lleol, awdurdodau esgobaethol, Llywodraethwyr Cymru, a staff mewn sefydliadau sydd â chyfrifoldeb arweiniol am ddiogelu plant a phobl ifanc.

## Trosolwg

Mae'r cyngor hwn yn amlinellu sut i ymateb i achosion o rannu delweddau noeth neu hanner noeth. Er bod creu a rhannu delweddau noeth neu hanner noeth yn debygol o ddigwydd y tu allan i'r ysgol neu goleg, mae'r materion hyn yn aml yn amlygu eu hunain mewn ysgolion, colegau a lleoliadau addysg. Mae angen i ysgolion, colegau a lleoliadau addysg eraill allu ymateb yn gyflym a hyderus er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu diogelu, eu cefnogi a'u haddysgu.

Nod y cyngor hwn yw cynorthwyo ysgolion, colegau a lleoliadau addysg eraill wrth ddatblygu gweithdrefnau er mwyn ymateb i ddigwyddiadau sy'n cynnwys rhannu delweddau noeth neu hanner noeth. Mae hefyd yn cyfeirio at adnoddau a ffynonellau chymorth.

## Camau i'w cymryd

Dylai gweithdrefnau sydd wedi'u datblygu i ymateb i achosion o rannu delweddau noeth neu hanner noeth fod yn rhan o drefniadau diogelu ysgol a dylid ymdrin â nhw fel mater diogelu. Mae'r cyngor hwn yn anstatudol a dylid ei ddarllen ochr yn ochr â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru, *Cadw dysgwyr yn ddiogel* (2020). Mae'r cyngor yn disodli Secstio: *Ymateb i ddigwyddiadau a diogelu dysgwyr a gyhoeddwyd yn 2017*.

## Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon i:

Y Gangen Cadernid Digidol mewn Addysg

Yr Uned Dysgu Digidol

Yr Is-adran Cyfathrebu Digidol a Strategol

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

e-bost: [hw@llyw.cymru](mailto:hw@llyw.cymru)



[@LIC\\_Addysg](https://twitter.com/LIC_Addysg)



[Facebook/AddysgCymru](https://www.facebook.com/AddysgCymru)

## Copïau ychwanegol

Gellir gweld y ddogfen hon ar wefan Hwb yn [hw@llyw.cymru/cadwddiogelarlein](https://www.hwb.llyw.cymru/cadwddiogelarlein)

Mae'r ddelwedd ar y clawr blaen wedi ei chymryd o ffilm o'r enw *Think life not likes*, a gynhyrchwyd gan ddisgyblion o Ysgol Nantgwyn. Mae'n archwilio effaith rhannu delweddau ar-lein. Dyfarnwyd y wobr gyntaf i'r ffilm yng nghystadleuaeth ffilm Diwrnod Defnyddio'r Rhyngwlad yn Fwy Diogel Llywodraeth Cymru yn 2020. Gellir ei gwyllo yn yr adran 'Cadw'n Ddiogel Ar-lein' ar Hwb yn [hw@llyw.cymru/cadwddiogelarlein](https://www.hwb.gov.wales/search?query=nantgwyn&strict=true&popupUri=%2FResource%2F1da3fd06-a5ff-488a-b792-d9b3aab02a63).

# Cynnwys

<b>1. Y cefndir a'r gyfraith</b>	<b>3</b>
Beth mae'r cyngor hwn yn ei gynnwys?	3
Diffinio 'rhannu delweddau noeth a hanner noeth'	3
Diffiniadau amgen	4
Y gyfraith	5
Rhannu delweddau heb gydsyniad	6
Rhannu delweddau – math o reolaeth	6
Osgoi troseddoli plant a phobl ifanc yn ddiangen	7
Ymateb yr heddlu	8
Cofnodi troseddau	8
Penderfyniad yr heddlu	9
Gwiriad cofnodion troseddol	10
Gweithio amlasiantaethol	10
<b>2. Cyd-destun</b>	<b>11</b>
Pam mae'r mater hwn yn bwysig i leoliadau sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc?	11
Deall cymhellion ac ymddygiadau	12
Diffinio digwyddiad	13
Asesu ymddygiad	14
Ystyriaethau oedran	14
Gwahaniaethu rhwng ymddygiad rhywiol normal ac annormal	15
<b>3. Ymdrin â digwyddiadau</b>	<b>18</b>
Ymateb cychwynnol	18
Datgeliad	18
Y cyfarfod adolygu cychwynnol	19
Sut i hysbysu'r heddlu am gynnwys ar-lein	20
Asesu'r risgiau	21
Astudiaeth achos A: Plant a phobl ifanc 13-18 oed	23
Astudiaeth achos B: Plant o dan 13 oed	24
Cefnogi'r plentyn/plant neu'r person/pobl ifanc dan sylw	24
Hysbysu rhieni/gofalwyr	27
Cysylltu â'r Gwasanaethau Cymdeithasol ac atgyfeiriadau	27
Gweld a dileu delweddau noeth a hanner noeth	27
Cofnodi digwyddiadau	28
Adrodd am ddelweddau noeth a hanner noeth ar-lein	29
Cefnogi rhieni/gofalwyr	30
Adnoddau a chymorth	32
Llinellau cymorth ac adrodd	32
<b>4. Addysgu plant a phobl ifanc</b>	<b>34</b>
Pam addysgu dysgwyr am rannu delweddau noeth a hanner noeth?	34
Sut y dylem addysgu dysgwyr am rannu delweddau noeth a hanner noeth?	34

Pryd mae addysgu dysgwyr am y materion hyn?	36
Sut y gallwn ni ddarparu addysg yn ddiogel?	37
Pa adnoddau sydd ar gael?	38
<b>Atodiad A: Cwestiynau i gefnogi asesiad</b>	<b>39</b>
<b>Atodiad B: Gweithgaredd hyfforddiant staff</b>	<b>43</b>
<b>Atodiad C: Astudiaethau achos yr NSPCC</b>	<b>53</b>
<b>Atodiad Ch: Siart lif ar gyfer ymateb i ddigwyddiadau</b>	<b>56</b>

# 1. Y cefndir a'r gyfraith

## Beth mae'r cyngor hwn yn ei gynnwys?

Mae'r cyngor hwn yn amlinellu sut i ymateb i achosion o rannu delweddau noeth a hanner noeth, gan gynnwys sefyllfaoedd asesu risg, trin a thrafod dyfeisiau a delweddau, cofnodi digwyddiadau, gan gynnwys rôl asiantaethau eraill, a hysbysu rhieni/gofalwyr.

Y mathau o ddigwyddiadau gaiff eu cynnwys yn y cyngor hwn yw:

- person o dan 18 oed yn creu ac yn rhannu delweddau noeth a hanner noeth eu hunain gyda chyfoed o dan 18 oed
- person o dan 18 oed yn rhannu delweddau noeth a hanner noeth a grëwyd gan berson arall o dan 18 oed gyda chyfoed o dan 18 oed.
- person o dan 18 oed yn meddu ar ddelweddau noeth a hanner noeth a grëwyd gan berson arall o dan 18 oed.

Nid yw'r cyngor hwn yn cynnwys:

- rhannu delweddau noeth a hanner noeth o unrhyw un sydd o dan 18 oed gyda neu gan oedolion, oherwydd bod hynny yn gyfystyr â cham-drin plant yn rhywiol, a dylai ysgolion bob amser hysbysu'r heddlu fel mater o frys<sup>1</sup>
- pobl ifanc o dan 18 oed yn rhannu pornograffi oedolion neu'n cyfnewid negeseuon testun rhywiol nad ydynt yn cynnwys delweddau.

## Diffinio 'rhannu delweddau noeth a hanner noeth'

Mae'r cyngor hwn yn defnyddio'r term 'rhannu delweddau noeth a hanner noeth' i olygu creu a/neu rannu delweddau, fideos neu ffrydiau byw noeth neu hanner noeth gan bobl ifanc o dan 18 oed. Gallai hyn ddigwydd ar y cyfryngau cymdeithasol, platfformau chwarae gemau, apiau sgwrsio neu fforymau. Gallai hefyd olygu rhannu rhwng dyfeisiau drwy wasanaethau fel AirDrop Apple, sy'n gweithio all-lein.

Mae'r term hwn wedi cael ei newid o secstio er mwyn gwneud pethau'n gliriach i weithwyr proffesiynol, rhieni/gofalwyr a phlant a phobl ifanc. Mae'r term yn fwy priodol yn cwmpasu pob math o ddigwyddiad lle rhennir delweddau.

Nid yw'r rhesymau dros dynnu a rhannu delweddau noeth a hanner noeth bob amser yn rhai rhywiol neu droseddol eu natur. Gall plant a phobl ifanc gael eu paratoi neu eu cymell i anfon delweddau noeth neu hanner noeth; fodd bynnag, gall delweddau noeth a hanner noeth gael eu creu a'u rhannu fel rhan o gydberthnasau cydsyniol neu gallant gael eu hanfon heb ofyn amdanynt.

---

<sup>1</sup> Mae hyn hefyd yn cynnwys achosion lle mae person o dan 18 oed yn rhannu delweddau noeth neu hanner noeth a grëwyd gan gyfoed o dan 18 oed gydag oedolyn.

Mae hefyd yn bosibl i berson ifanc sydd mewn perthynas gydsyniol gael ei gymell i rannu delwedd â'i bartner. Gall digwyddiadau hefyd godi fel a ganlyn:

- mae plant a phobl ifanc yn dod o hyd i ddelweddau noeth neu hanner noeth ar-lein ac yn eu rhannu gan honni eu bod oddi wrth gyfoed
- mae plant a phobl ifanc yn cyfuno yn ddigidol ddelwedd o berson ifanc â delwedd noeth sydd eisoes yn bodoli ar-lein
- caiff delweddau sy'n cael eu creu neu eu rhannu eu defnyddio i gam-drin cyfoedion, e.e. drwy werthu delweddau ar-lein neu gael gafael ar ddelweddau i'w rhannu'n ehangach (heb gydsyniad) er mwyn codi cywilydd ar rywun yn gyhoeddus, weithiau am fod perthynas wedi dod i ben.

Gall delweddau noeth a hanner noeth gael eu rhannu'n gyhoeddus ar-lein, mewn negeseuon un i un neu drwy sgysiau grŵp a chyfrifon preifat ar y cyfryngau cymdeithasol.

Gall y delweddau, fideos neu ffrydiau byw noeth neu hanner noeth gynnwys mwy nag un plentyn neu berson ifanc.

Rhoddir rhagor o wybodaeth am yr hyn sy'n cymell pobl i dynnu a rhannu delweddau noeth a hanner noeth ar dudalen 12.

Mae'n anghyfreithlon creu a rhannu delweddau noeth neu hanner noeth o unrhyw un sydd o dan 18 oed, ac mae hynny'n golygu bod ymateb i ddigwyddiadau sy'n cynnwys plant a phobl ifanc yn gymhleth. Hefyd, mae amrywiaeth o risgiau y mae angen eu rheoli'n ofalus gan y rhai sy'n gweithio mewn lleoliadau addysg.

## Diffiniadau amgen

Y term cyfreithiol a ddefnyddir i ddiffinio delweddau o blant a phobl ifanc sydd o dan 18 oed lle maent yn noeth neu'n hanner noeth yw 'delweddau anwedus o blant'.

Gellir hefyd gyfeirio at 'rannu delweddau noeth a hanner noeth' fel a ganlyn:

- delweddau rhywiol wedi'u cynhyrchu gan bobl ifanc neu ddelweddau rhywiol 'sy'n cynnwys pobl ifanc' neu ddelweddau rhywiol 'a hunangynhyrchwyd'
- delweddau anwedus. Dyma'r term cyfreithiol a ddefnyddir i ddiffinio delweddau a fideos o blant a phobl ifanc sydd o dan 18 oed lle maent yn noeth neu'n hanner noeth. Rhoddir rhagor o wybodaeth am y gyfraith yn yr adran nesaf
- secstio. Gall llawer o weithwyr proffesiynol ddefnyddio'r term hwn; fodd bynnag, mae rhai pobl yn dehongli secstio fel 'ysgrifennu a rhannu negeseuon rhywiol iawn â phobl y maent yn eu hadnabod'<sup>2</sup> yn hytrach na rhannu delweddau

---

<sup>2</sup> "...I wasn't sure it was normal to watch it..." (NSPCC, Prifysgol Middlesex, Swyddfa Comisiynydd Plant Lloegr, 2017)

- deunydd cam-drin plant yn rhywiol. Gall y term hwn gael ei ddefnyddio wrth gyfeirio at rannu delweddau noeth a hanner noeth heb gydsyniad<sup>3</sup>.

I blant a phobl ifanc, mae'r termau Saesneg a ddefnyddir yn aml yn cynnwys 'nudes' neu 'dick pics'<sup>4</sup>.

## Y gyfraith

Mae ymateb i achosion o rannu delweddau noeth a hanner noeth yn gymhleth oherwydd ei statws cyfreithiol. Mae creu, meddu ar neu rannu unrhyw ddelweddau o unrhyw un o dan 18 oed sy'n 'anweddus' yn anghyfreithlon. Mae hyn yn cynnwys delweddau o'u hunain sydd wedi cael eu creu a'u rhannu gan blant a phobl ifanc (os ydynt o dan 18 oed).

Mae'r ddeddfwriaeth berthnasol i'w chael yn Neddf Amddiffyn Plant 1978 (Cymru a Lloegr) (gweler [www.iwf.org.uk/what-we-do/how-we-assess-and-remove-content/laws-and-assessment-levels/laws-for-child-sexual-1](http://www.iwf.org.uk/what-we-do/how-we-assess-and-remove-content/laws-and-assessment-levels/laws-for-child-sexual-1) (Saesneg yn unig)) fel y'i diwygiwyd yn Neddf Troseddau Rhywiol 2003 (Cymru a Lloegr) (gweler [www.iwf.org.uk/what-we-do/how-we-assess-and-remove-content/laws-and-assessment-levels/laws-for-child-sexual-0](http://www.iwf.org.uk/what-we-do/how-we-assess-and-remove-content/laws-and-assessment-levels/laws-for-child-sexual-0) (Saesneg yn unig)).

Yn benodol:

- mae'n drosedd meddu ar ddelweddau anweddus o blant, eu dosbarthu, eu dangos a'u gwneud
- mae Deddf Troseddau Rhywiol 2003 (Cymru a Lloegr) yn diffinio plentyn, at ddiben delweddau anweddus, fel unrhyw un o dan 18 oed.

Ni ddiffinnir 'anweddus' mewn deddfwriaeth. Pan fo achosion yn cael eu herlyn, y rheithgor, ynad neu farnwr rhanbarth sydd i benderfynu a yw unrhyw lun o blentyn yn anweddus ai peidio, a hynny'n seiliedig ar y safon priodoldeb cydnabyddedig<sup>5</sup>.

Nid yw delweddau anweddus bob amser yn golygu noethni; fodd bynnag, mae delweddau yn debygol o gael eu diffinio fel hynny os byddant yn bodloni un neu ragor o'r meini prafw canlynol:

- ystumiau rhywiol lle mae'r person yn noeth neu'n hanner noeth, e.e. dangos genitalia a/neu fronnau, neu ddelweddau rhywiol iawn o bobl ifanc yn eu dillad isaf
- rhywun noeth neu hanner noeth yn cyffwrdd â'i hun mewn ffordd rhywiol

---

<sup>3</sup> *Online Sexual Harassment: Comprehensive Guidance for Education settings* (Sexplain et al, 2020) Ar gael yn: <https://sexplain.org.uk/guidance-for-schools> (Saesneg yn unig)

<sup>4</sup> *Young people and sexting – attitudes and behaviours* (Y Ganolfan Rhyngryd Mwy Diogel, Prifysgol Plymouth, Netsafe Seland Newydd, Swyddfa Comisiynydd Eddiogelwch Awstralia, 2017)

<sup>5</sup> [www.cps.gov.uk/legal-guidance/indecent-and-prohibited-images-children](http://www.cps.gov.uk/legal-guidance/indecent-and-prohibited-images-children) (Saesneg yn unig)



- unrhyw weithgarwch rhywiol ag un plentyn neu fwy yn rhan ohono
- rhywun yn brifo rhywun arall yn rhywiol
- gweithgarwch rhywiol sy'n cynnwys anifeiliaid.

## **Rhannu delweddau heb gydsyniad**

Mae hefyd yn anghyfreithlon rhannu delweddau neu fideos rhywiol preifat heb gydsyniad, gyda'r nod o beri gofid. Mae'r ddeddfwriaeth berthnasol i'w chael yn adran 33 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd 2015<sup>6</sup>.

## **Rhannu delweddau – math o reolaeth**

Mewn rhai amgylchiadau, mae delweddau noeth neu hanner noeth yn gallu cael eu defnyddio fel math o reolaeth drwy orfodaeth mewn perthynas neu i fanipwleiddio rhywun ar ôl i berthynas ddod i ben. Yng Nghymru, bwriad darpariaethau Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yw sicrhau ffocws ar draws y sector cyhoeddus ar atal y problemau hyn, amddiffyn dioddefwyr a cynorthwyo rhai y mae materion o'r fath yn effeithio arnynt. Diffiniad Llywodraeth Cymru o drais a cham-drin domestig yw:

'Unrhyw ddigwyddiad neu batrwm o ddigwyddiadau sy'n amlygu ymddygiad sy'n fgythyliol neu'n rheoli, neu'n rheoli drwy orfodaeth, neu unrhyw drais neu gamdriniaeth rhwng pobl 16 oed neu'n hŷn sydd, neu sydd wedi bod, yn bartneriaid rhywiol, neu'n aelodau o deulu, ni waeth beth fo'u rhyw na'u rhywioldeb'.

Mae sawl math gwahanol o gam-drin domestig. Ymhlith elfennau eraill, mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- rheoli drwy orfodaeth,
- cam-drin yn emosiynol/seicolegol
- camdriniaeth gorfforol
- camdriniaeth rywiol
- camdriniaeth ariannol
- aflonyddu a stelcio.

Mae'r Ddeddf am greu gwell ymateb gan y sector cyhoeddus i drais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Prif amcanion y Ddeddf yw gwella trefniadau ar gyfer:

- hyrwyddo ymwybyddiaeth, atal achosion, ac amddiffyn a chefnogi dioddefwyr
- cryfhau'r atebolrwydd a'r arweinyddiaeth strategol yn y sector cyhoeddus

---

<sup>6</sup>Fel rheol mae hyn yn ymwneud â throseddau lle rhennir delweddau heb gydsyniad rhwng oedolion; fodd bynnag, bu achosion lle mae pobl ifanc wedi cael eu herlyn o dan adran 33 yn y llysoedd ieuencid.

- gwella cysondeb ac ansawdd gwasanaethau a ddarperir yng Nghymru a'u gwneud yn fwy cydgysylltiedig.

Dylid nodi y gall unrhyw blentyn neu berson ifanc o dan 18 oed gael ei orfodi neu ei flacmelio i anfon delweddau noeth neu hanner noeth. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a chanllawiau statudol cysylltiedig yn nodi bod gan ymarferwyr sy'n gweithio ar draws asiantaethau gyfrifoldeb i ddiogelu plant a rhoi gwybod am bryderon bod plentyn mewn perygl. Caiff y cyfrifoldebau hyn eu hegluro ymhellach yng Ngweithdrefnau Diogelu Cymru<sup>7</sup>.

**Cam-drin ar-lein** yw unrhyw fath o gam-drin sy'n cael ei hwyluso drwy dechnoleg fel cyfrifiaduron, cyfrifiaduron llechen, ffonau symudol, consolau a dyfeisiau electronig eraill. Mae'n bwysig bod yn ymwybodol y gall cyswllt ar-lein sy'n gysylltiedig ag ymddygiadau camdriniol achosi cryn drawma i blant a phobl ifanc hyd yn oed pan ellir ystyried bod y cyswllt/cynnwys yn fath lefel is o ran niwed. Dylai plant sy'n cam-drin cyfoedion, megis drwy ymddwyn mewn ffordd rywiol niweidiol a thrwy ymddwyn mewn ffyrdd camdriniol eraill ar-lein, gael eu hystyried yn blant yn gyntaf a dylent gael y gefnogaeth briodol. Dylid ymateb i'r ymddygiad mewn ffordd gymesur, a dylid ystyried a oes ganddynt unrhyw anghenion gofal a chymorth. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn 'Canllaw Ymarfer Cymru Gyfan: Diogelu plant rhag cam-drin ar-lein'<sup>8</sup>.

## Osgoi troseddoli plant a phobl ifanc yn ddiangen

Crëwyd y ddeddf sy'n troseddoli cymryd, meddu ar neu rannu delweddau anwedus o blant ymhell cyn bod y rhyngwyd, ffonau symudol a chyfryngau digidol yn cael eu defnyddio i'r graddau a wneir heddiw. Fe'i crëwyd hefyd i amddiffyn plant a phobl ifanc rhag oedolion oedd yn ceisio eu cam-drin yn rhywiol neu gael pleser o'u cam-drin yn rhywiol. Nid troseddoli plant oedd y bwriad.

Er hyn, mae pobl ifanc sy'n cymryd, yn meddu ar neu'n rhannu delweddau ohonynt eu hunain, neu gyfoedion, yn noeth neu'n hanner noeth yn torri'r gyfraith.

Fodd bynnag, ni ddylem droseddoli plant yn ddiangen. Mae plant sydd â chofnod troseddol yn wynebu stigma a gwahaniaethu mewn perthynas â chael mynediad i addysg, hyfforddiant, cyflogaeth, teithio a thai, a gall y rhwystrau hyn ddilyn plant i fyd oedolion<sup>9</sup>.

Er bod plant a phobl ifanc sy'n creu a rhannu delweddau noeth a hanner noeth yn achosi risg iddyn nhw eu hunain ac eraill, mae hynny'n aml o ganlyniad i chwilfrydedd naturiol plant neu bobl ifanc ynghylch rhyw a'u harchwiliad o gydberthnasau. O ganlyniad, efallai na fydd tynnu neu rannu delweddau noeth a hanner noeth bob amser

<sup>7</sup> [www.diogelu.cymru/index.html](http://www.diogelu.cymru/index.html)

<sup>8</sup> Gweler [www.diogelu.cymru/chi/index.c6.html](http://www.diogelu.cymru/chi/index.c6.html)

<sup>9</sup> *Growing up, Moving on: The International Treatment of Childhood Criminal Records* (Pwyllgor Sefydlog ar Gyfiawnder Ieuenctid, 2016)

yn 'niweidiol' i bob plentyn a pherson ifanc. Dylid ystyried sefyllfaoedd fesul achos, gan ystyried yr hyn a wyddys am y plant neu'r bobl ifanc dan sylw, ac a oes risg uniongyrchol o niwed. Yn aml, mae angen i blant a phobl ifanc gael addysg a chymorth, e.e. ar adnabod ymddygiadau sy'n iach ac ymddygiadau nad ydynt yn iach mewn cydberthnasau, a deall cydsyniad a sut i'w roi. Bydd hefyd angen cymryd camau diogelu mewn achosion lle mae risg o niwed.

Nid yw'r ffaith bod yr heddlu yn penderfynu ymchwilio i achos o rannu delweddau noeth a hanner noeth yn golygu'n awtomatig y bydd gan y plentyn/person ifanc dan sylw gofnod troseddol, fel yr eglurir yn yr adran nesaf.

## Ymateb yr heddlu

Mae Cyngor Prif Swyddogion yr Heddlu Cenedlaethol (NPCC) wedi egluro y dylid trin achosion o rannu delweddau noeth a hanner noeth fel mater diogelu yn bennaf.

Gall lleoliadau addysg ymateb i ddigwyddiadau heb gynnwys yr heddlu. Mae cyngor ar gael yn Adran 2 ar pryd y byddai hynny'n briodol.

Fodd bynnag, gall fod angen i'r heddlu ymwneud ag achosion er mwyn sicrhau ymchwiliad trylwyr, yn cynnwys casglu'r holl dystiolaeth (e.e. drwy wiriadau amlasiantaethau). **Lle mae yna ffactorau sy'n ymwneud â cham-drin a/neu ffactorau gwaethybol, dylid rhoi gwybod i'r heddlu amdanynt bob amser drwy'r ganolfan ddiogelu amlasiantaeth lleol (MASH) neu'r hyn sy'n cyfateb iddo (gweler adran 2).**

Pan fo'r heddlu yn ymwneud ag achos, dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y byddai ymateb cyfiawnder troseddol a sancsiwn ffurfiol yn erbyn person ifanc yn cael ei ystyried yn briodol.

Er mwyn helpu gwasanaethau heddlu lleol i ddatblygu ymateb cydgysylltiedig, effeithiol a chymesur yn y maes hwn, mae'r NPCC a'r Coleg Plismona wedi llunio cyngor gweithredol ar gyfer asiantaethau gorfodi'r gyfraith yn ymwneud ag ymchwilio i droseddau lle rhennir delweddau noeth a hanner noeth.<sup>10</sup>

## Cofnodi troseddau

Pan hysbysir yr heddlu am achosion o rannu delweddau noeth a hanner noeth, mae'n ddyletswydd arnynt, o dan Reolau Cyfrif y Swyddfa Gartref a'r Safonau Cofnodi Troseddau Cenedlaethol, i gofnodi'r digwyddiad ar eu systemau troseddau. Bydd y digwyddiad yn cael ei restru fel 'trosedd' a bydd y person ifanc dan sylw yn cael ei restru fel 'un a amheuir'.

---

<sup>10</sup> *Briefing note: Police action in response to youth produced sexual imagery ('Sexting')*, (Coleg Plismona, 2016). Gweler [www.college.police.uk/News/College-news/](http://www.college.police.uk/News/College-news/) (Saesneg yn unig)

Nid yw hyn yn gyfystyr â chael cofnod troseddol.

## **Penderfyniad yr heddlu**

Pan gaiff yr heddlu wybod am ddigwyddiad, bydd yn ymchwilio iddo ac yn penderfynu ar ganlyniad priodol.

Os bydd digwyddiad yn cynnwys ffactorau camdriniol a/neu waethybol, gall y plentyn neu'r person ifanc gael rhybudd neu gael ei euogfarnu.

I liniaru'r risg o gael effaith negyddol ar blant a phobl ifanc, gall yr heddlu gofnodi canlyniad ymchwiliad gan ddefnyddio cod canlyniad 21 os nodir nad oedd digwyddiad yn gamdriniol, ac nad oes unrhyw dystiolaeth o'r canlynol:

- camfanteisio
- meithrin perthynas amhriodol
- cymhelliad gwneud elw
- bwriad maleisus (e.e. rhannu helaeth neu amhriodol megis lanlwytho i wefan bornograffig)
- ymddygiad parhaus.

Mae cod canlyniad 21, a lansiwyd yn 2016, yn helpu i ffurfioli'r disgresiwn sydd gan yr heddlu wrth ymdrin â throseddau megis rhannu delweddau noeth a hanner noeth.

Mae canlyniad 21 yn nodi:

Nid yw er lles y cyhoedd i gynnal ymchwiliad pellach, yn deillio o'r adroddiad ar y drosedd, a allai ddarparu digon o dystiolaeth i ategu camau ffurfiol yn erbyn rhywun a amheuir. Mae hynny yn benderfyniad i'r heddlu.

Mae hynny'n golygu y gall yr heddlu gofnodi eu bod wedi dewis peidio â chymryd camau pellach gan nad oedd er lles y cyhoedd, er bod person ifanc wedi torri'r gyfraith ac y gallai'r heddlu ddarparu dystiolaeth ei fod wedi gwneud hynny.

Mae'r penderfyniad i ddefnyddio canlyniad 21 yn yr amgylchiadau hyn yn debygol o gael ei adolygu gan swyddog digon profiadol a/neu lefel digon uchel.

Pan benderfynir ar ganlyniad priodol, dylai'r heddlu roi gwybod i'r plentyn neu'r person ifanc dan sylw, ei rieni/gofalwyr a, lle y bo'n briodol, y lleoliad. Dylai hyn hefyd egluro'r goblygiadau uniongyrchol a thymor hwy.

## **Gwiriad cofnodion troseddol**

Mae penderfyniad i ddatgelu gwybodaeth fel rhan o unrhyw wiriad cofnodion troseddol (tystysgrif y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)) yn cael ei wneud ar sail p'un a yw'r wybodaeth honno yn berthnasol i'r risg y gallai'r unigolyn hwnnw ei achosi i blant, pobl ifanc neu oedolion sy'n agored i niwed.

Gall achos o rannu delweddau noeth neu hanner noeth a gofnodwyd ar systemau'r heddlu gyda chanlyniad 21 gael ei ddatgelu ar dystysgrif DBS.

Fodd bynnag, gall gwybodaeth nad yw'n ymwneud ag euogfarn neu rybudd gael ei gynnwys ar dystysgrif DBS dim ond pan fo unigolyn wedi gwneud cais am wiriad DBS manwl. Mewn achosion o'r fath, prif swyddog fyddai'n penderfynu pa wybodaeth (yn ychwanegol at euogfarnau a rhybuddion a ddelir ar Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu) ddylai gael ei darparu i'w chynnwys. Mae'n rhaid i'r penderfyniad hwnnw gael ei wneud yn seiliedig ar bod y prif swyddog o fewn rheswm yn credu bod yr wybodaeth yn berthnasol at ddiben y datgeliad (e.e. lle mae rhywun yn derbyn swydd sy'n golygu gweithio gyda phlant) ac yn ystyried y dylid ei chynnwys.

## **Gweithio amlasiantaethol**

Os bydd yr heddlu yn hysbysu lleoliad am ddiwyddiad nad oedd yn ymwybodol ohono'n flaenorol, dylai'r person diogelu dynodedig (DSP) ddilyn y canllawiau statudol a nodir yn *Cadw dysgwyr yn ddiogel* (2020), sy'n cynnwys cydweithio â phartneriaid amlasiantaeth perthnasol.

## 2. Cyd-destun

### **Pam mae'r mater hwn yn bwysig i leoliadau sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc?**

Mae rhannu lluniau, fideos a ffrydiau byw yn rhan o fywyd bob dydd i nifer o bobl, ac mae'n eu galluogi i rannu eu profiadau, cysylltu â ffrindiau a chofnodi eu bywydau.

Yn y DU, mae 83 y cant o'r rhai 12–15 oed yn berchen ar ffonau clyfar<sup>11</sup>, sy'n rhoi'r gallu iddynt greu a rhannu lluniau a fideos yn gyflym a hawdd. Gellir rhannu lluniau a fideos fel negeseuon testun (MMS), e-bost, eu postio ar y cyfryngau cymdeithasol, neu drwy apiau negeseuon symudol. Ymhlith y platfformau poblogaidd mae Snapchat, Instagram, Facebook a WhatsApp.

Yn 2019/20 cynhaliodd Childline 693 o sesiynau cwnsela lle cofnodwyd rhannu delweddau noeth a hanner noeth yn is-bryder; yn y flwyddyn flaenorol (2018/19) roedd 647.

Mae ymchwil wedi nodi (Brook a NCA-CEOP, 2017):

- bod 26 y cant o blant a phobl ifanc wedi anfon delwedd lle roeddent yn noeth neu'n hanner noeth at rywun roedd ganddynt ddi-ddordeb ynddo
- bod 48 y cant o blant a phobl ifanc wedi derbyn un gan rywun arall, a anfonwyd gan yr un person.

Er nad yw'r rhan fwyaf o blant a phobl ifanc yn creu nac yn rhannu'r mathau hyn o ddelweddau a fideos, mae'r risgiau posibl yn sylweddol. Os caiff y delweddau eu rhannu ymhellach, gall greu embaras, arwain at fwlio, a gwneud y sawl sy'n rhan o'r sefyllfa yn fwy agored i flacmel a chamfanteisio.

Mae hefyd yn anghyfreithlon creu a rhannu delweddau noeth a hanner noeth o blant a phobl ifanc sydd o dan 18 oed, sy'n peri cryn bryder mewn lleoliadau sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc, ac ymhlith rhieni/gofalwyr.

Fel yr amlinellwyd yn y trosolwg, nod y cyngor hwn yw helpu lleoliadau i ddatblygu gweithdrefnau er mwyn ymateb i achosion o rannu delweddau noeth a hanner noeth fel rhan o'u trefniadau diogelu.

Dylai'r ymateb i'r digwyddiadau hyn gael ei arwain gan egwyddor cymesuredd, ac amddiffyn a diogelu llesiant y plant a'r bobl ifanc dan sylw ddylai'r prif ystyriaeth fod.

---

<sup>11</sup> *Plant a rhieni: Adroddiad ar agweddau a defnydd o gyfryngau 2019* (Ofcom, 2019)  
[www.ofcom.org.uk/\\_\\_data/assets/pdf\\_file/0029/190577/plant-a-rhieni-adroddiad-ar-agweddau-a-defnydd-o-gyfryngau-2019.pdf](http://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0029/190577/plant-a-rhieni-adroddiad-ar-agweddau-a-defnydd-o-gyfryngau-2019.pdf)

Gall achosion unigol o gam-drin cyfoedion ac ymddygiad rhywiol (mae rhannu delweddau noeth a hanner noeth yn gallu bod yn perthyn i'r categori hwn) arwain at ddiwylliannau niweidiol neu ddiwylliannau nad ydynt yn iach yng nghymuned y lleoliad. Mae'r ffordd yr ymatebir i'r digwyddiadau hyn – gan gynnwys ymddygiad rhywiol niweidiol 'lefel isel' – yn cael effaith uniongyrchol ar ddiwylliant y lleoliad. Os ymdrinnir â digwyddiad yn wael, gall set o normau nad yw'n ddiogel ac nad yw'n iach gael ei chreu sy'n galluogi cam-drin rhwng cyfoedion; gall hyn hefyd atal plant a phobl ifanc eraill rhag datgelu achosion.

Mae Canllawiau i leoliadau addysg am gam-drin rhywiol, camfanteisio ac ymddygiad rhywiol niweidiol gan gyfoedion wedi cael eu datblygu ar gyfer Llywodraeth Cymru gan yr NSPCC a Barnado's. Rhoddir rhagor o wybodaeth hefyd yng Nghyllw Ymarfer Cymru Gyfan 'Diogelu plant lle mae pryderon ynghylch ymddygiad rhywiol niweidiol' a Gweithdrefnau Diogelu Cymru.

Rhaid cydnabod y gall y broses o reoli achosion unigol effeithio ar ddiwylliant y lleoliad cyfan, ymateb cyfoedion a gallu pob plentyn a pherson ifanc i siarad allan.

Yn Atodiad Ch ceir siart lif lefel uchel ar gyfer ymateb i ddigwyddiadau. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau ymateb priodol a chymesur, gall lleoliadau addysg ddefnyddio'r adnoddau ategol a argymhellir er mwyn helpu i asesu digwyddiad. Trafodir hyn o dan 'Diffinio digwyddiad' (tudalen 13) ac 'Asesu ymddygiad' (tudalen 14).

## **Deall cymhellion ac ymddygiadau**

Mae deall diwylliant cyfoes a dylanwadau cymdeithasol ar blant a phobl ifanc yn bwysig wrth ystyried yr arfer cymdeithasol o rannu delweddau noeth a hanner noeth, ac wrth asesu digwyddiadau. Gall cyfnewid delweddau noeth a hanner noeth fod yn ffordd o feithrin perthynas neu ddod yn fwy poblogaidd a nodir 'the primary technology-related threat is not the 'stranger danger' hyped by the mass media but technology-mediated sexual pressure from their peers'<sup>12</sup>. Gall fod 'blurred lines of consent ... such as receiving a compliment or feeling connected to the recipient but not the other aspects, such as the worry about unauthorised distribution'<sup>13</sup>.

Mae beio'r dioddefwr yn dal i fod yn broblem fawr o ran hunangynhyrchu delweddau lle mae'r person yn noeth ac yn hanner noeth; mae'n dilyn 'a typical pattern of someone sending an image to one person, then the recipient shares that image, and the victim then receives abuse from the wider community because they are a 'slut' or a 'slag' (or 'dumb' or 'stupid') for sending the image to this one trusted individual'<sup>14</sup>. Prin y rhennir delweddau mewn ffordd niweidiol a chamdriniol, ond gall fod bwriad maleisus mewn

---

<sup>12</sup> 'A qualitative study of children, young people and 'sexting': a report prepared for the NSPCC' (Ysgol Economeg a Gwyddor Wleidyddol Llundain, 2012)

<sup>13</sup> *How safe are our children? 2020: An overview of data on abuse of adolescents* (NSPCC, 2020)

<sup>14</sup> *Young people and sexting – attitudes and behaviours* (Y Ganolfan Rhyngwryd Mwy Diogel, Prifysgol Plymouth, Netsafe Seland Newydd, Swyddfa Comisiynydd Eddiogelwch Awstralia, 2017)

rhai achosion, e.e. '5 per cent of young people report having a sexual image shared following a relationship break-up'<sup>15</sup>.

Nid yw rhannu delweddau noeth a hanner noeth bob amser yn digwydd oherwydd cymhelliad rhywiol neu droseddol. Fodd bynnag, 'an image shared consensually and non-sexually could be used and interpreted differently by someone else, making the task of defining harm and safety ... even harder'<sup>16</sup>. Bydd ymateb lleoliad addysg i ddigwyddiad yn amrywio gan ddibynnu ar yr hyn a wnaeth gymell y digwyddiad a phriodoldeb ymddygiad y plentyn neu'r person/pobl ifanc.

Er mwyn sicrhau ymateb priodol a chymesur i achos o rannu delweddau noeth a hanner noeth, gall lleoliadau addysg ddefnyddio'r adnoddau yn y tabl o dan 'Diffinio digwyddiad'.

## Diffinio digwyddiad

Gellir defnyddio teipoleg Finkelhor a Wolak o achosion o rannu delweddau wedi'u cynhyrchu gan ieuenctid i ddiffinio ac asesu achosion o rannu delweddau noeth a hanner noeth yn ôl y cymhelliant<sup>17</sup>.

Gellir rhannu digwyddiadau yn ddau gategori yn fras, fel y nodir yn y tabl isod.

<p>Mae <b>digwyddiadau gwaethygedig</b> yn cynnwys elfennau troseddol neu gamdriniol y tu hwnt i greu, anfon neu feddu ar ddelweddau noeth a hanner noeth</p>	<p>Mae <b>troeddwy sy'n oedolion</b> yn ceisio paratoi pobl ifanc yn eu harddegau i gyflawni troeddau rhywiol hyd yn oed heb ddefnyddio delweddau a gynhyrchir gan ieuenctid. Gall dioddefwyr fod yn ffrindiau i'r teulu, perthnasau, aelodau o'r gymuned neu bobl y cysylltir â hwy ar y rhyngwyd. Gall y delweddau rhywiol a gynhyrchir gan ieuenctid gael eu rhannu ar gais troeddwy sy'n oedolion.</p>
	<p><b>Ieuenctid yn unig: mae achosion o fwriad i niweidio</b> sy'n deillio o wrthdaro rhyngpersonol megis tor perthynas a gwrthdaro ymysg ffrindiau yn cynnwys ymddygiad troseddol neu gamdriniol megis blacmel, bygythiadau neu dwyll, neu gamdriniaeth neu ecsbloetio rhywiol gan bobl ifanc.</p>
	<p><b>Ieuenctid yn unig: gyda chamddefnydd di-hid</b> nid oes bwriad i niweidio, ond mae delweddau'n cael eu cymryd neu eu hanfon yn ddiarwybod i'r person ifanc yn y llun neu heb iddo gymryd rhan yn fwriadol yn y digwyddiad. Yn yr achosion hyn mae lluniau yn cael eu tynnu neu eu hanfon yn ddifeddwl</p>

<sup>15</sup> *How safe are our children? 2020: An overview of data on abuse of adolescents* (NSPCC, 2020)

<sup>16</sup> *How safe are our children? 2020: An overview of data on abuse of adolescents* (NSPCC, 2020)

<sup>17</sup> <https://scholars.unh.edu/ccrc/48>



	neu'n fyrbwyll, ac efallai y bydd dioddefwr yn cael ei niweidio o ganlyniad i hynny.
Mae <b>digwyddiadau arbrofol</b> yn ymwneud â chreu ac anfon delweddau noeth neu hanner noeth, heb unrhyw gysylltiad ag oedolyn, heb unrhyw fwriad amlwg i niweidio na chamddefnydd byrbwyll.	Mae achosion <b>rhamantus</b> yn cynnwys pobl ifanc mewn cydberthnasau parhaus sy'n creu delweddau ar gyfer eu hunain neu ei gilydd – ni fwriadwyd i'r delweddau gael eu rhannu i neb heblaw'r pâr dan sylw.
	<b>Ceisio sylw rhywiol:</b> daw'r ymadrodd 'ceisio sylw rhywiol' neu ' <i>sexual attention seeking</i> ' yn uniongyrchol o'r deipoleg; fodd bynnag, mae'n bwysig nodi y gall digwyddiadau yn y categori hwn fod yn rhan o blentyndod arferol. Ni ddylai plentyn na person ifanc gael ei feio am dynnu a rhannu delwedd ohono.
	<b>Arall:</b> achosion nad yw'n ymddangos bod elfennau gwaethygedig yn perthyn iddynt, megis cysylltiad ag oedolion, cymhellion maleisus neu gamddefnydd byrbwyll, ac nad ydynt ychwaith yn perthyn i'r is-fathau 'rhamantus' neu 'geisio sylw'. Mae'r rhain naill ai'n ymwneud â phobl ifanc sy'n tynnu lluniau ohonynt eu hunain ar eu cyfer eu hunain (dim tystiolaeth o anfon neu rannu neu fwriad i wneud hynny) neu blant cyn glasoed (naw oed neu iau) nad yw'n ymddangos bod ganddynt gymhellion rhywiol.

## Asesu ymddygiad

Wrth ystyried y camau gweithredu priodol lle rhennir delweddau noeth a hanner noeth, bydd angen i'r DSP ystyried oedran y plant a'r bobl ifanc dan sylw, a'r cyd-destun.

## Ystyriaethau oedran

Mae plant o dan 13 oed yn cael gwarchodaeth ychwanegol rhag camdriniaeth rywiol o dan Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003. Mae'n rhaid trin yn ddifrifol unrhyw sefyllfa sy'n ymwneud â phlant o dan 13 oed a rhannu delweddau noeth a hanner noeth oherwydd gallant fod yn arwydd o bryder ehangach mewn perthynas â diogelu neu amddiffyn plant, neu o ymddygiad rhywiol problemus.

Mae'n debygol bod oedran a gallu'r plant dan sylw yn dylanwadu ar ddealltwriaeth plant a phobl ifanc ynghylch goblygiadau posibl cymryd a/neu rannu delweddau noeth a hanner noeth. Mewn rhai achosion gall plant o dan 13 oed (a hŷn hefyd) greu delweddau noeth a hanner noeth o ganlyniad i chwilfrydedd sy'n briodol i'w hoedran neu ymddygiad mentrus neu'n syml oherwydd anwybodaeth yn hytrach nag unrhyw fwriad rhywiol. Dyma'r ymddygiad sy'n fwy tebygol o gael ei ganfod yn gyffredinol mewn ysgolion cynradd. Gallai rhai enghreifftiau cyffredin gynnwys anfon lluniau o'u horganau rhywiol i'w ffrindiau fel her, neu dynnu llun o blentyn arall wrth iddo newid ar gyfer gwers ymarfer corff. Yn y cyd-destun hwn mae'n annhebygol bod angen cynnwys y

gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu ac nad yw hynny'n gymesur, ond bydd angen i'r DSP ddefnyddio eu barn broffesiynol wrth ystyried y cyd-destun penodol a'r plant dan sylw.

## Gwahaniaethu rhwng ymddygiad rhywiol normal ac annormal

Bydd angen i'r DSP fod yn ymwybodol y gall ymddygiad nad yw efallai'n ymddangos fel ymddygiad â chymhelliad rhywiol ar y cychwyn fod wedi digwydd o ganlyniad i ymddygiad mentrus neu niweidiol neu o ganlyniad i 'normaleiddio' camdriniaeth rhywiol mewn perthynas â phlant.

Gall model 'Continuum of children and young people's sexual behaviours' Hackett hefyd helpu ymarferwyr i ddeall bod ymddygiadau rhywiol plant a phobl ifanc yn bodoli ar gontinwrm eang o ymddygiadau normal i gamdriniol a threisgar; gallant symud rhwng pob categori. Fe'i defnyddir hefyd fel model yn y *Canllawiau i leoliadau addysg am gam-drin rhywiol, camfanteisio ac ymddygiad rhywiol niweidiol gan gyfoedion* (gweler [llyw.cymru/cam-drin-rhywiol-gan-gyfoedion-camfanteisio-ac-ymddygiad-rhywiol-niweidiol](http://llyw.cymru/cam-drin-rhywiol-gan-gyfoedion-camfanteisio-ac-ymddygiad-rhywiol-niweidiol)).

Mae'n bwysig nodi nad yw un digwyddiad lle gwelir ymddygiad problematig neu gamdriniol o reidrwydd yn arwydd o ymddygiad rhywiol cyffredinol y plentyn neu'r person ifanc<sup>18</sup>. Dylid ymdrin â'r digwydd mewn ffordd sy'n gweddu i'r ymddygiad a welir.

Normal	Amhriodol	Problematig	Camdriniol	Treisgar
I'w ddisgwyl yn ddatblygiadol	Achosion unigol o ymddygiad rhywiol amhriodol	Ymddygiadau problematig ac sy'n peri pryder	Bwriad neu ganlyniad yn ymwneud ag erledigaeth	Cam-drin rhywiol sy'n gorfforol dreisgar
Yn gymdeithasol dderbyniol	Ymddygiad yn cael ei dderbyn gan gyfoedion yng nghyd-destun y grŵp cyfoedion	Yn anarferol yn ddatblygiadol ac yn gymdeithasol annisgwyl	Yn cynnwys camddefnyddio pŵer	Ymwthiol iawn
Cydsyniol, ar y cyd, dwyochrog		Dim unrhyw elfennau amlwg o erledigaeth	Gorfodaeth a grym i sicrhau bod y dioddefwr yn cydymffurfio	Trais cyfryngol sy'n cynhyrfu'r cyflawnwr yn ffisiolegol a/neu'n rhywiol
Gwneud penderfyniadau ar y cyd	Gall cyd-destun yr ymddygiad fod yn amhriodol	Gall materion o ran cydsynio fod yn aneglur	Ymwthiol	Sadistiaeth
		Gall fod diffyg dwyochredd	Diffyg cydsyniad ar	

<sup>18</sup> Gweler *Harmful sexual behaviour framework* (NSPCC, 2019) <https://learning.nspcc.org.uk/research-resources/2019/harmful-sexual-behaviour-framework> (Saesneg yn unig)

	Cydsyniol ac ar y cyd yn gyffredinol	neu bŵer cyfatebol  Gall gynnwys lefelau o orfoddedd	sail gwybodaeth neu'r dioddefwr yn methu â'i roi'n rhydd  Gall gynnwys elfennau o drais mynegiannol	
--	--------------------------------------	--	---	--

Cyfieithiad o addasiad o 'A continuum of children and young people's sexual behaviours' gan Simon Hackett (2010)<sup>19</sup>

Mae'n rhaid trin yn ddifrifol unrhyw sefyllfa sy'n ymwneud â phlant o dan 13 oed a rhannu delweddau noeth a hanner noeth oherwydd gallant fod yn arwydd o bryder ehangach mewn perthynas â diogelu neu amddiffyn plant, neu o ymddygiad rhywiol problemus. Mae hyn yn allweddol er mwyn sicrhau bod plant sy'n ymwneud â hyn neu a glustnodir yn cael eu diogelu ac nad ydynt yn cael eu troseddoli neu eu labelu yn ddiangen. Rhoddir rhagor o wybodaeth am hyn yng Nghanllawiau Ymarfer Cymru Gyfan 'Diogelu plant rhag cam-drin ar-lein' a 'Diogelu plant lle mae pryderon ynghylch ymddygiad rhywiol niweidiol'. Mae'r rhain yn seiliedig ar gontinwm Hackett o ymddygiadau rhywiol plant a phobl ifanc. Mae'r canllawiau hefyd yn cynnwys dolenni i adnoddau ymarfer.

Gellir hefyd ddefnyddio fframweithiau fel Adnodd Goleuadau Traffig Ymddygiadau Rhywiol Brook i nodi pan mae ymddygiad rhywiol plentyn neu berson ifanc yn peri pryder o ran ei ddatblygiad. Er bod plentyn neu berson ifanc yn arddangos ymddygiad rhywiol priodol yng nghyd-destun ei oed neu ei ddatblygiad, dylid ystyried serch hynny p'un a yw cymryd neu rannu delweddau noeth neu hanner noeth yn codi unrhyw bryderon ychwanegol.

I grynhoi, mae'r adnoddau sydd ar gael i gynorthwyo DSPau yn cynnwys:

- Canllaw Ymarfer Cymru Gyfan 'Diogelu plant rhag cam-drin ar-lein' [www.diogelu.cymru/chi/index.c6.html](http://www.diogelu.cymru/chi/index.c6.html)
- Canllaw Ymarfer Cymru Gyfan 'Diogelu plant lle mae pryderon ynghylch ymddygiad rhywiol niweidiol' [www.diogelu.cymru/chi/index.c6.html](http://www.diogelu.cymru/chi/index.c6.html)
- Adnodd Goleuadau Traffig Ymddygiadau Rhywiol Brook <https://www.brook.org.uk/training/wider-professional-training/sexual-behaviours-traffic-light-tool/>
- Adnoddau Stop it Now! Sefydliad Lucy Faithfull [www.stopitnow.org.uk/resources/](http://www.stopitnow.org.uk/resources/) (Saesneg yn unig)

<sup>19</sup> Cymerwyd o *Harmful sexual behaviour framework* (NSPCC, 2019) <https://learning.nspcc.org.uk/research-resources/2019/harmful-sexual-behaviour-framework>

Canllawiau i leoliadau addysg am gam-drin rhywiol, camfanteisio ac ymddygiad rhywiol niweidiol gan gyfoedion (gweler [llyw.cymru/cam-drin-rhywiol-gan-gyfoedion-camfanteisio-ac-ymddygiad-rhywiol-niweidiol](http://llyw.cymru/cam-drin-rhywiol-gan-gyfoedion-camfanteisio-ac-ymddygiad-rhywiol-niweidiol)).

### **3. Ymdrin â digwyddiadau**

#### **Ymateb cychwynnol**

Mae canllawiau statudol ar gadw dysgwyr yn ddiogel yn nodi y dylai pawb mewn lleoliadau addysg greu a chynnal amgylchedd dysgu diogel a chlustnodi pryderon ynghylch llesiant plant a chymryd camau i ddelio â hwy, pan fo'n briodol, mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill. Mae'n rhaid i bob lleoliad â chyfrifoldebau statudol gael polisi amddiffyn plant, a gallant ddymuno ystyried sut maent yn adlewyrchu eu hymagwedd tuag at rannu delweddau noeth a hanner noeth yn y polisi hwnnw.

Dylid ymateb i bob achos o rannu delweddau noeth a hanner noeth yn unol â pholisi diogelu ac amddiffyn plant y lleoliad a Gweithdrefnau Diogelu Cymru.

Pan fo achos o rannu delweddau noeth neu hanner noeth yn dod i sylw lleoliad:

- dylid cyfeirio'r digwyddiad i sylw'r DSP cyn gynted â phosibl
- dylai'r DSP gynnal cyfarfod adolygu cychwynnol gydag aelodau priodol o staff. Efallai bydd y DSP yn dymuno ceisio cyngor cyffredinol gan Swyddog Heddlu Cymunedol yr Ysgol (SCPO)
- dylid cynnal cyfweiliadau dilynol gyda'r plant neu'r bobl ifanc o dan sylw (os yw'n briodol)
- dylid hysbysu rhieni/gofalwyr yn gynnar a'u cynnwys yn y broses oni bai fod yna reswm da i gredu y byddai cynnwys y rhieni/gofalwyr yn golygu y byddai'r plentyn neu'r person ifanc yn wynebu risg o niwed
- ar unrhyw adeg yn ystod y broses, os pryderir bod plentyn neu berson ifanc wedi cael ei niweidio neu ei fod yn wynebu risg o gael ei niweidio, dylid cyfeirio'r mater at y gwasanaethau cymdeithasol a/neu yr heddlu ar unwaith yn unol â threfniadau arferol y lleoliad
- os oes gan y plentyn weithiwr cymdeithasol, dylech roi gwybod i'r gwasanaethau cymdeithasol am y digwyddiad.

Yn Atodiad Ch ceir siart lif sy'n crynhoi sut y dylai lleoliadau addysg ymateb i achosion o rannu delweddau noeth a hanner noeth.

#### **Datgeliad**

Gall datgeliadau mewn perthynas â rhannu delweddau noeth a hanner noeth ddigwydd mewn amryw o ffyrdd. Gall y plentyn neu'r person ifanc yr effeithir arno roi gwybod i athro, y DSP, neu unrhyw aelod o staff y lleoliad. Gallant adrodd am y digwyddiad drwy gyfrwng strwythur adrodd sy'n bodoli, neu gall ffrind neu riant/gofalwr hysbysu rhywun yn y lleoliad, neu hysbysu'r heddlu yn uniongyrchol.

Dylai pob aelod staff (gan gynnwys staff nad ydynt yn addysgu) fod yn ymwybodol o sut mae adnabod a chyfeirio unrhyw ddatgeliadau o ddigwyddiadau sy'n ymwneud â phob mater mewn perthynas ag amddiffyn plant, gan gynnwys rhannu delweddau noeth a

hanner noeth. Dylid cynnwys hyn mewn hyfforddiant staff, a dylai hefyd gynnwys strategaethau codi ymwybyddiaeth o'r prosesau ymhlith plant a phobl ifanc yn y lleoliad. Mae Atodiad B yn cynnwys ymarferiad hyfforddi y gellir ei ddefnyddio er mwyn amlygu'r materion ymysg staff.

Dylai unrhyw ddatgeliad gan blentyn neu berson ifanc gael ei drin yn ddifrifol iawn. Mae'n debygol y bydd yn teimlo embaras ac yn poeni am y canlyniadau, ac efallai mai dim ond pan fetho popeth arall y ceir datgeliad yn y lleoliad ar ôl ceisio datrys y mater ei hun.

## Y cyfarfod adolygu cychwynnol

Dylai'r cyfarfod adolygu cychwynnol ystyried y dystiolaeth gychwynnol a cheisio sefydlu:

- a oes risg uniongyrchol i blentyn neu berson ifanc
- a ddylid cyfeirio'r mater i'r heddlu a/neu'r gwasanaethau cymdeithasol
- pa wybodaeth arall sydd ei hangen er mwyn gallu penderfynu ar yr ymateb gorau
- a yw'r ddelwedd/delweddau wedi cael ei/eu rhannu'n eang a thrwy pa wasanaethau a/neu blatfformau. Efallai na fydd hynny'n hysbys
- unrhyw ffeithiau perthnasol am y plant neu'r bobl ifanc o dan sylw fyddai'n dylanwadu ar yr asesiad risg
- a oes angen cysylltu â lleoliad neu unigolyn arall
- a ddylid cysylltu â rhieni/gofalwyr y plant neu'r bobl ifanc dan sylw – yn y rhan fwyaf o achosion dylid eu cynnwys.

Fel rhan o'r adolygiad cychwynnol hwn, cyfeiriwch at 'Gweld a dileu delweddau noeth a hanner noeth' ar dudalen 27.

Gall DSPau ddefnyddio teipoleg Finkelhor a Wolak ac Adnodd Goleuadau Traffig Ymddygiadau Rhywiol Brook (a amlinellir yn adran 1) i helpu i gategoreiddio'r digwyddiad ac asesu ymddygiadau unrhyw blentyn neu berson ifanc dan sylw er mwyn nodi unrhyw risgiau uniongyrchol.

Dylid cyfeirio'r mater **yn syth** i'r heddlu a/neu wasanaethau cymdeithasol<sup>20</sup> os, yn ystod y cam cychwynnol hwn:

- yw'r digwyddiad yn ymwneud ag oedolyn
- oes yna reswm i gredu bod y plentyn neu'r person ifanc wedi cael ei gymell, ei flacmelio neu ei baratoi, neu os pryderir am allu'r person ifanc i gydsynio (e.e. o ganlyniad i anghenion dysgu ychwanegol)
- yw'r hyn a wyddoch am y ddelwedd yn awgrymu bod y cynnwys yn darlunio gweithredoedd rhywiol sy'n anarferol ar gyfer cam datblygiadol y plentyn neu berson ifanc, neu sy'n dreisgar (gweler tudalen 14 am arweiniad ar asesu ymddygiad)

---

<sup>20</sup> Os oes gan ardal leol y lleoliad MASH, efallai mai dyma'r pwynt cyswllt cyntaf mwyaf priodol.

- yw'r delweddau yn cynnwys gweithredoedd rhywiol ac mae unrhyw blentyn yn y ddelwedd o dan 13 oed<sup>21</sup>
- oes gennych chi reswm i gredu bod y plentyn neu'r person ifanc yn wynebu risg uniongyrchol o niwed o ganlyniad i rannu'r ddelwedd, e.e. mae'n ymddangos bod y plentyn neu'r person ifanc mewn perygl o gyflawni hunanladdiad neu hunan-niwed.

Os nad yw'r un o'r uchod yn gymwys, gall lleoliad ddewis ymateb i'r digwyddiad heb gynnwys yr heddlu neu'r gwasanaethau cymdeithasol (gall lleoliad ddewis uwchgyfeirio'r digwyddiad ar unrhyw adeg os bydd mwy o wybodaeth/pryderon yn dod i'r amlwg). O fewn lleoliadau ysgol, mae'r SCPO bob amser ar gael i roi mwy o gyngor cyffredinol os bydd angen hynny ar unrhyw adeg.

Byddai penderfyniad i ymateb i'r digwyddiad heb gynnwys yr heddlu neu'r gwasanaethau cymdeithasol yn cael ei wneud mewn achosion pan fo'r DSP yn hyderus bod ganddo ddigon o wybodaeth i asesu'r risgiau i'r plant a'r bobl ifanc dan sylw ac y gellir rheoli'r risgiau o fewn fframwaith cymorth bugeiliol a disgyblaethol y lleoliad, yn ogystal â'u rhwydwaith cymorth lleol (os yw'n briodol).

Dylai'r penderfyniad gael ei wneud gan y DSP mewn ymgynghoriad â'r pennaeth neu'r rheolwr a'r tîm arwain, gyda mewnbwn gan aelodau eraill o staff os yw'n briodol. Dylid cofnodi'r penderfyniad yn unol â pholisi'r lleoliad.

Dylai'r penderfyniad fod yn unol â pholisi a gweithdrefnau amddiffyn plant y lleoliad a dylid ei seilio ar ystyriaethau mewn perthynas â lles y plentyn neu'r person ifanc o dan sylw. Dylai hynny roi ystyriaeth i gymesuredd yn ogystal â lles ac amddiffyn y plentyn neu'r person ifanc. Dylai'r penderfyniad gael ei adolygu drwy gydol y broses o ymateb i'r digwyddiad ac ystyried barn y rhai dan sylw a'r rhieni/gofalwyr. Dylai pob penderfyniad gael ei wneud fesul achos, gan ystyried materion megis a gafwyd cydsyniad i rannu delwedd(au) a chan gyfeirio at gontinwmm Hackett. Os oes unrhyw amheuaeth, dylech gysylltu â gwasanaethau cymdeithasol plant am gyngor.

Os oes gennych chi unrhyw amheuaeth ynghylch cynnwys asiantaethau eraill ai peidio, dylech hysbysu'r heddlu.

## **Sut i hysbysu'r heddlu am gynnwys ar-lein**

Os bydd angen hysbysu'r heddlu, dylid cysylltu yn unol â'r trefniadau sy'n bodoli. Gall hyn ddigwydd drwy'r SCPO, drwy'r MASH neu'r hyn sy'n cyfateb iddo, neu drwy ffonio 101 neu 999 (lle mae bywyd yn y fantol).

Mae'n bwysig nad ydych chi'n gofyn i neb anfon unrhyw ddelweddau na fideos atoch ac nad ydych chi'n anfon unrhyw ddelweddau na fideos drwy dechnoleg eich hun – hyd yn oed i'r heddlu.

---

<sup>21</sup> Gweler Atodiad A i gael mwy o wybodaeth am ystyriaethau oedran.

Os byddwch chi'n amau bod delweddau/sgyrsiau/hanes gwefannau ar unrhyw ddyfais sy'n perthyn i'r plentyn **ni ddylech** ddileu unrhyw beth ar y ddyfais. Mae angen i'r ddyfais gael ei hatafaelu a'i chadw fel yr oedd. Nodwch unrhyw rif PIN/manylion agor y ddyfais lle y bo modd fel y gall yr heddlu ei harchwilio mewn unrhyw ymchwiliad.

### **Yr hyn i fod yn ymwybodol ohono wrth adrodd am ddigwyddiadau i'r heddlu**

Ni all yr heddlu gynnig cyngor cyffredinol ar ddigwyddiadau. Os enwir y plentyn neu'r plant dan sylw neu os darperir manylion, mae'n ddyletswydd arnynt i gofnodi ac ymchwilio i bob gweithgaredd troseddol yr adroddir amdanynt.

Wrth adrodd am ddigwyddiad drwy'r gwasanaeth 101, byddwch yn ymwybodol bod y person sy'n ateb yr alwad yn rhywun sy'n delio â galwadau yn ymwneud ag amrywiaeth eang o droseddau, ac efallai na fydd ganddo wybodaeth arbenigol yn y maes hwn. Sicrhewch fod unrhyw gyfeirnodau trosedd a ddarperir yn cael eu cofnodi.

Mae SCPOau yn gallu cynnig cymorth uniongyrchol i ysgolion ar atal, a chyngor ar reoli digwyddiadau.

### **Asesu'r risgiau**

Gall amgylchiadau digwyddiadau amrywio'n fawr. Os penderfynwyd yn ystod y cam adolygu cychwynnol i beidio â chyfeirio'r mater i'r heddlu a/neu wasanaethau cymdeithasol, dylai'r DSP gynnal adolygiad arall (gan gynnwys cyfweiliad â'r plant neu'r bobl ifanc o dan sylw) er mwyn sefydlu'r ffeithiau ac asesu'r risgiau.

Wrth asesu'r risgiau, dylid ystyried y canlynol.

- Pam y rhannwyd y ddelwedd noeth neu hanner noeth? A gymhellwyd y plentyn neu'r person ifanc neu a roddwyd y plentyn neu'r person ifanc o dan bwysau?
- A yw'r ddelwedd noeth neu hanner noeth wedi cael ei rhannu'n fwy eang nag i'r un y bwriadwyd iddo ei derbyn? A rannwyd y ddelwedd heb gydsyniad y plentyn neu'r person ifanc a gynhyrchodd y ddelwedd noeth neu hanner noeth?
- A rannwyd y ddelwedd ar y cyfryngau cymdeithasol neu'n unrhyw le arall ar-lein? Os digwyddodd hynny, pa gamau a gymerwyd i gyfyngu ar ledaenu'r ddelwedd?
- Beth yw oedran unrhyw blant neu bobl ifanc dan sylw?
- A fu i'r plentyn neu'r person ifanc anfon y ddelwedd i fwy nag un person?
- A oes gennych chi unrhyw bryderon am y ffaith bod y plentyn neu'r person ifanc yn agored i niwed?
- A oes pryderon ychwanegol am hysbysu'r rhieni/gofalwyr?



Dylai DSPau bob amser ddefnyddio eu barn broffesiynol mewn cydweithrediad â'u cydweithwyr er mwyn asesu'r digwyddiadau.

Mae Atodiad A yn cynnwys rhestr o gwestiynau er mwyn ategu a chynorthwyo barn broffesiynol DSPau.

## **Astudiaeth achos A: Plant a phobl ifanc 13-18 oed**

### **Pryder**

- Roedd bachgen a merch, ill dau yn 16 oed, mewn perthynas dros y mis diwethaf a chydsyniodd y ddau i recordio eu hunain yn cyflawni gweithgaredd rhywiol. Ers hynny mae'r bachgen wedi dangos y fideo i ddysgwyr eraill. Daeth ffrindiau'r ferch i wybod am hyn, yna dywedodd ei ffrindiau wrth eu hathro blwyddyn a siaradodd â DSP y lleoliad.

### **Ymateb y lleoliad**

- Bu i'r DSP siarad â'r ferch ac yna'r bachgen. Nid oedd yna unrhyw bryderon mewn perthynas â diogelu ynghylch y naill dysgwr na'r llall. Nid oedd dim tystiolaeth bod y fideo wedi cael ei rannu gan y bachgen a chynigodd ei ddileu oddi ar ei ddyfais.
- Er na chafodd ei rannu ar-lein, gwnaeth y bachgen gyfaddef iddo ddangos y fideo i rai o'i ffrindiau heb gydsyniad ei gariad, a wnaeth beri embaras iddi.
- Rhoddodd y DSP wybodaeth i'r ferch am wasanaethau cymorth a oedd ar gael, a chynghorodd y ddau berson ifanc am effaith bosibl creu a rhannu delweddau/fideos rhywiol, yn droseddol ac yn emosiynol.
- Gan na wnaeth yr holl bobl ifanc dan sylw gydsynio, gan gynnwys y rhai a welwyd yn y fideo, cymerwyd camau disgyblu yn erbyn y bachgen. Ystyriwyd ei bod hi'n briodol ymdrin â'r mater 'yn fewnol' oherwydd barnwyd nad oedd unrhyw fwriad i achosi niwed ac y byddai addysgu'r rhai dan sylw am gydsynio a chydberthnasau iach yn ffordd fwy effeithiol o ymdrin â'r digwyddiad.
- Gweithiodd y DSP gyda'r ddau ddysgwr i'w helpu i benderfynu ar gynllun cytunedig ar gyfer hysbysu rhieni'r dysgwyr. Bu i'r DSP gofnodi'r digwyddiad, yn ogystal â'r camau a gymerwyd, yn ei gofnodion diogelu.

## **Astudiaeth achos B: Plant o dan 13 oed**

### **Pryder**

- Gwnaeth dysgwr â rhai anawsterau dysgu (merch 12 oed) ddweud wrth ei hathro ei bod wedi anfon llun ohoni ei hun yn ei dillad isaf at gyd-ddysgwr (bachgen 12 oed) fisoedd ynghynt, ond ei bod hi bellach yn cael ei blacmelio gan rywun ar Snapchat i anfon llun noeth ohoni ei hun at y person hwn neu byddai'n rhyddhau'r llun cyntaf ar-lein ac yn ei anfon at ei theulu.

### **Ymateb yr ysgol**

- Nid oedd gan yr ysgol unrhyw bryderon diogelu eraill ynghylch y plant na'u teuluoedd. Cyfeiriodd yr athro y digwyddiad at DSP yr ysgol a wnaeth siarad â'r dysgwyr dan sylw a'u rhieni, a rhoi cyngor iddynt ynghylch y sefyllfa a'r canlyniadau posibl, gan gynnwys cyfeirio i'r heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol.
- Yn ystod cyfweiliadau'r DSP, cadarnhawyd na ofynnwyd i'r ferch am y ddelwedd ac na chafodd ei rhoi dan bwysau na'i chymell i'w hanfon. Gwadodd y bachgen a dderbyniodd y ddelwedd wreiddiol iddo ei rhannu'n ehangach, a gwadodd ei fod yn gwybod unrhyw beth am y defnyddiwr Snapchat.
- Ceisiodd y DSP gyngor gan yr SCPO a thîm diogelu addysg yr awdurdod lleol. Am fod y ferch yn agored i niwed, atgyfeiriwyd y mater i'r gwasanaethau cymdeithasol oherwydd, er nad oedd rheswm i bryderu efallai, tybiwyd ei bod hi'n bwysig deall pam ei bod hi'n ymddwyn fel hyn.
- Cynhaliodd yr SCPO ymchwiliad, a wnaeth gynnwys cysylltu â Snapchat. Anfonodd y cwmni ddisg wedi'i hamgryptio a oedd yn cynnwys y negeseuon a anfonwyd gan y defnyddiwr. Roedd y ddisg yn cynnwys delweddau o blant noeth a'r llun o'r ferch yn ei dillad isaf.
- Ar ôl cynnal ymchwiliad, datgelodd y cyfeiriad IP fod y defnyddiwr yn byw yn ne-orllewin Lloegr a chafodd yr achos ei drosglwyddo i'r Tîm Ymchwilio i Bedoffilia Ar-lein yn yr ardal. Arestwyd unigolyn yn dilyn hyn, er nad yw'n hysbys sut y cafodd afael ar y ddelwedd.
- Yn ystod y cyfnod hwn, cadwodd yr SCPO mewn cysylltiad â'r ferch a'i rhieni er mwyn darparu gwybodaeth, tawelwch meddwl a chymorth.
- Bu i'r ysgol gofnodi'r digwyddiad yn ogystal â'r camau a gymerwyd yng nghofnodion diogelu'r plant.

### **Cefnogi'r plentyn/plant neu'r person/pobl ifanc dan sylw**

Ar ôl asesu nad yw plentyn neu berson ifanc yn wynebu risg uniongyrchol, efallai y bydd angen cael sgwrs gydag ef a phenderfynu ar y camau gorau i'w cymryd. Os yw'n bosibl, dylai'r DSP gynnal y sgwrs hon. Fodd bynnag, os bydd y plentyn neu'r person ifanc yn teimlo'n fwy cyfforddus yn siarad ag aelod arall o'r staff, dylid hwyluso hynny pan fo'n bosibl. Mae'n bwysig bod y plentyn neu'r person ifanc yn cael rhywfaint o reolaeth o'r broses adrodd.

Pwrpas y sgwrs hon yw:

- canfod, **heb edrych**, beth mae'r ddelwedd noeth neu hanner noeth yn ei gynnwys, ac a oes unrhyw un arall yn gysylltiedig
- gweld a yw'r ddelwedd noeth neu hanner noeth wedi cael ei rhannu rhwng dau berson neu ei rhannu ymhellach. Gall yr wybodaeth hon fod yn dybiannol oherwydd gall fod delweddau wedi'u rhannu'n ehangach na'r hyn mae'r plentyn neu'r person ifanc yn ymwybodol ohono
- trafod pa gamau a chymorth y gall fod eu hangen, gan gynnwys atal dosbarthiad pellach. Dylai'r drafodaeth hon ystyried safbwyntiau'r plentyn neu'r person ifanc a chydbwyso'r hyn a ystyrir yn gamau priodol mewn ymateb i'r digwyddiad.

Wrth drafod rhannu delweddau noeth a hanner noeth, mae'n bwysig bod y DSP (neu unigolyn cyfatebol) yn ystyried safbwynt y plentyn neu'r person ifanc (gweler Atodiad C). Er y bydd hyn yn amrywio o un achos i'r llall, mae'n bwysig cofio y bydd bod yn rhan o unrhyw ymchwiliad neu drafod digwyddiad yn peri gofid i blentyn neu berson ifanc. Er mwyn helpu i leihau a rheoli unrhyw ofid a brofir gan y plentyn neu'r person ifanc, mae'n bwysig bod y DSP (neu unigolyn cyfatebol) yn gwneud y canlynol:

- sicrhau'r plentyn neu'r person ifanc nad ydynt ar eu pennau eu hunain ac y bydd y lleoliad addysg yn gwneud popeth o fewn ei allu i'w helpu a'i gynorthwyo. Dylid hefyd roi sicrwydd y cânt yr wybodaeth ddiweddaraf drwy gydol y broses
- cydnabod y pwysau all fod ar blant a phobl ifanc i gymryd rhan mewn rhannu delwedd o'r fath, ac os yw'n berthnasol, cynorthwyo eu rhieni/gofalwyr i ddeall y materion ehangach a'r cymhelliannau sy'n gysylltiedig â hyn
- parhau i ganolbwyntio ar ddatrysiad ac yn osgoi cwestiynau sy'n beio'r dioddefwr megis 'pam wyt ti wedi gwneud hyn?' oherwydd gallai hynny atal y plentyn neu'r person ifanc rhag siarad am beth sydd wedi digwydd. Er enghraifft, defnyddiwch gwestiynau megis 'disgrifia beth ddigwyddodd' neu 'eglura pwy oedd yn rhan o hyn'
- helpu'r plentyn neu'r person ifanc i ddeall beth sydd wedi digwydd drwy drafod y pwysau ehangach mae'n ei deimlo efallai a chymhellion y person a rannodd y ddelwedd
- trafod materion cydsynio ac ymddiriedaeth mewn cydberthnasau iach. Egluro wrth y plant neu bobl ifanc nad yw'n iawn i rywun wneud iddynt deimlo'n annifyr, i'w rhoi dan bwysau i wneud pethau nad ydynt eisiau eu gwneud, neu ddangos pethau iddynt y maent yn anhapus yn eu cylch. Gadael iddynt wybod y gallant siarad â'r DSP os bydd hynny byth yn digwydd
- egluro'r gyfraith ar rannu delweddau noeth a hanner noeth. Mae'n bwysig tanlinellu'r ffaith bod y gyfraith yno i amddiffyn plant a phobl ifanc yn hytrach na'u troseddoli; dylai hyn gael ei egluro mewn ffordd sy'n osgoi codi ofn arnynt neu wneud iddynt ofidio
- cyfeirio (os oes angen) at wasanaethau cymorth sydd ar gael, e.e. os byddant am siarad â gweithiwr proffesiynol yn ddiennw.

**Yn achos plant a phobl ifanc y mae eu delwedd noeth neu hanner noeth wedi cael ei rhannu'n gyhoeddus, mae'n bwysig bod y DSP (neu unigolyn cyfatebol) yn gwneud y canlynol:**

- eu sicrhau eu bod wedi gwneud y peth iawn drwy siarad ag oedolyn, a bod y lleoliad addysg ac oedolion eraill yna i helpu
- eu cynghori:
  - i ddileu delweddau o gyfrifon cyfrywngau cymdeithasol (gan gynnwys lluniau a gadwyd wrth gefn yn y cwmwl) os byddant wedi'u lanlwytho eu hunain
  - defnyddio adnodd Report Remove Childline a'r Internet Watch Foundation (IWF) [www.childline.org.uk/info-advice/bullying-abuse-safety/online-mobile-safety/sexting/report-nude-image-online/](http://www.childline.org.uk/info-advice/bullying-abuse-safety/online-mobile-safety/sexting/report-nude-image-online/). Mae'n rhaid gwneud hynny mor fuan â phosibl er mwyn lleihau nifer y bobl sy'n gweld y ddelwedd
  - ar sut mae adrodd am ddelweddau noeth neu hanner noeth ar safleoedd unigol er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu dileu. Os bydd delwedd wedi cael ei rhannu drwy gyfrwng ffôn symudol, dylid eu hysbysu y gallant gysylltu â'r gweithredwr ffonau symudol er mwyn newid rhif ffôn symudol gan y gallai hyn atal eraill rhag cysylltu â nhw
  - i siarad â'r lleoliad os byddant yn pryderu am unrhyw fwlio.

**Yn achos plant a phobl ifanc y mae delwedd noeth neu hanner noeth wedi cael ei hanfon atynt, mae'n bwysig bod y DSP yn gwneud y canlynol:**

- eu sicrhau eu bod wedi gwneud y peth iawn drwy siarad â rhywun, a bod y lleoliad addysg ac oedolion eraill yna i helpu
- gofyn a gafodd ei hanfon gan oedolyn neu blentyn neu berson ifanc arall, ac a wnaethant ofyn am y llun ai peidio
- eu cynghori:
  - ynghylch pwysigrwydd adrodd amdani ar-lein os yw eisoes wedi'i rhannu
  - i'w dileu o'u dyfeisiau a'u cyfrifon
  - ynghylch pwysigrwydd peidio â rhannu'r ddelwedd ymhellach
  - (os bu iddynt ofyn am y ddelwedd) na ddylent roi pwysau ar bobl eraill i wneud pethau nad ydynt yn gyfforddus yn eu gwneud.

**Yn achos plant a phobl ifanc sydd wedi rhannu delwedd noeth neu hanner noeth o blentyn neu berson ifanc arall, mae'n bwysig bod y DSP yn gwneud y canlynol:**

- gofyn a wnaethant ofyn am y ddelwedd neu a dderbyniwyd y ddelwedd ar y cychwyn heb ofyn amdani
- gofyn at bwy yr anfonwyd y ddelwedd ac ym mhle mae wedi cael ei rhannu. Cytuno ar y camau nesaf er mwyn dileu'r ddelwedd, gan gynnwys dileu'r ddelwedd oddi ar ffôn y plentyn neu'r person ifanc neu unrhyw gyfrif cyfrwng cymdeithasol sydd ganddo a rhoi gwybod i ddarparwyr gwasanaethau
- holi beth oedd eu cymhellion i rannu'r llun a thrafod beth allant fod wedi ei wneud yn wahanol. Os ydynt wedi ymateb i ddigwyddiad trallodus, megis tor perthynas, drwy rannu'r llun, siaradwch am sut gellid bod wedi rheoli eu teimladau mewn ffordd

iachach a mwy cadarnhaol. Pwysleisio, beth bynnag fo'r rheswm, ei bod hi bob amser yn anghywir rhannu delweddau o blentyn neu berson ifanc arall yn noeth ac yn hanner noeth. Gellir achub ar y cyfle i drafod pwysigrwydd cydsynio a pheidio â rhoi pwysau ar eraill i greu neu rannu delweddau noeth a hanner noeth

- cynghori ar y gyfraith ar rannu delweddau noeth a hanner noeth.

## **Hysbysu rhieni/gofalwyr**

Dylid hysbysu rhieni/gofalwyr a'u cynnwys yn gynnar yn y broses, oni bai y byddai eu hysbysu yn golygu y byddai'r person ifanc yn wynebu risg o niwed. Os bydd unrhyw reswm dros gredu y gallai hysbysu rhiant/gofalwr beri trallod i'r plentyn neu ei niweidio, dylai'r mater gael ei gyfeirio at y gwasanaethau cymdeithasol i'w ystyried.

Gall y DSP weithio gyda'r bobl ifanc dan sylw er mwyn penderfynu ar y ffordd orau o hysbysu rhieni/gofalwyr. Mewn rhai achosion, gall y DSP weithio ar gynorthwyo'r plentyn neu'r person ifanc i hysbysu eu rhieni/gofalwyr eu hunain.

Rhoddir rhagor o gyngor a gwybodaeth am gynnwys rhieni/gofalwyr o dan 'Cefnogi rhieni/gofalwyr' ar dudalen 30.

## **Cysylltu â'r Gwasanaethau Cymdeithasol ac atgyfeiriadau**

Os bydd y DSP yn ymwybodol bod y gwasanaethau cymdeithasol yn ymwneud ar hyn o bryd â pherson ifanc sydd wedi ei gysylltu â digwyddiad o rannu delweddau noeth a hanner noeth, dylent gysylltu â swyddog dyletswydd y gwasanaethau cymdeithasol. Dylent hefyd gysylltu â gwasanaethau cymdeithasol plant os ydynt yn credu eu bod wedi bod yn gysylltiedig, neu wedi bod yn gysylltiedig â pherson ifanc yn y gorffennol.

Os yw'r DSP, o ganlyniad i ymchwiliad, yn credu bod yna faterion ehangach yn bodoli sy'n cyrraedd y trothwy ar gyfer cynnwys y gwasanaethau cyhoeddus, dylent atgyfeirio yn unol â'u gweithdrefnau amddiffyn plant.

Dylai DSP sicrhau eu bod yn ymwybodol o, ac yn gyfarwydd ag, unrhyw bolisiâu a gweithdrefnau perthnasol a phwyntiau/enwau cyswllt sydd ar gael ar gyfer cynorthwyo lleoliadau o ran ymateb i rannu delweddau noeth neu hanner noeth.

Os oes gan ardal leol MASH, gall hwnnw fod y man mwyaf priodol i leoliadau atgyfeirio iddo ar y cychwyn.

## **Gweld a dileu delweddau noeth a hanner noeth**

Ni ddylai oedolion edrych ar ddelweddau noeth neu hanner noeth. Pryd bynnag fo hynny'n bosibl, dylai ymatebion i ddigwyddiadau fod yn seiliedig ar beth a ddywedwyd wrth y DSP am gynnwys y ddelwedd.

Os bydd delweddau noeth a hanner noeth wedi cael eu gweld gan aelod staff, ac nad oedd modd osgoi hynny, naill ai'n dilyn datgeliad gan berson ifanc neu o ganlyniad i

aelod staff yn ymgymryd â'i rôl ddyddiol (megis staff TG yn monitro systemau) dylai'r DSP sicrhau bod yr aelod hwnnw o staff yn derbyn cymorth priodol. Gall gweld delweddau o'r fath fod yn brofiad trallodus i blant a phobl ifanc ac oedolion ac efallai y bydd angen cymorth emosiynol priodol.

Os yw'r lleoliad wedi penderfynu nad oes angen cynnwys asiantaethau eraill a bod hynny'n rhesymol, dylid ystyried dileu'r ddelwedd neu'r delweddau oddi ar ddyfeisiau yn ogystal ag unrhyw ddelwedd(au) a gaiff ei/eu storio ar wasanaethau storio cwmwl, yn unol â pholisi ymddygiad y lleoliad, er mwyn atal y ddelwedd neu'r delweddau rhag cael ei/eu rhannu ymhellach.

Argymhellir yn y rhan fwyaf o achosion y gofynnir i blant a phobl ifanc ddileu delwedd(au) ac i gadarnhau eu bod wedi gwneud hynny. Dylid rhoi terfyn amser i blant a phobl ifanc ddileu delweddau ar eu holl ddyfeisiau, storfeydd ar-lein neu wefannau cyfryngau cymdeithasol<sup>22</sup>.

Dylid atgoffa plant a phobl ifanc bod meddu ar ddelweddau noeth a hanner noeth o unrhyw un o dan 18 oed yn anghyfreithlon. Dylid eu hysbysu os byddant yn gwrthod neu os canfyddir yn ddiweddarach nad ydynt wedi dileu'r delweddau, eu bod yn cyflawni trosedd ac y gellir cyfeirio'r mater i'r heddlu. Mae angen cofnodi'r holl benderfyniadau hyn, gan gynnwys amseroedd, dyddiadau a rhesymau dros benderfyniadau a wneir a'u logio yn y cofnodion diogelu. Dylid cofnodi unrhyw ddatganiadau gan y plentyn neu'r person ifanc **yn eu geiriau eu hunain**. Dylid hefyd hysbysu rhieni/gofalwyr oni bai fod hynny yn achosi mwy o risg i'r plentyn neu'r person ifanc.

Ar y pwynt hwn, dylai lleoliadau gymryd eu camau eu hunain er mwyn addysgu plant a phobl ifanc am y materion sydd ynghlwm wrth rannu, creu neu dderbyn delweddau, ond mae hynny'n ddibynnol ar ddisgresiwn y lleoliad a dylai hynny fod yn unol â'i bolisiau ymddygiad ei hun.

Dylai lleoliadau weithredu'n unol â'u polisi ar feddiannu eitemau dysgwyr, gan gynnwys dyfeisiau digidol, fel y nodir yn eu polisi ymddygiad.

## Cofnodi digwyddiadau

Bydd angen i'r DSP gofnodi pob achos o rannu delweddau noeth a hanner noeth a chadw hyn ar wahân i gofnodion eraill ar gyfer y plant a'r pobl ifanc yn y lleoliad. Mae hyn yn cynnwys digwyddiadau a atgyfeiriwyd i asiantaethau allanol a rhai na atgyfeiriwyd. Yn achos digwyddiadau nad yw'r heddlu na'r gwasanaethau cymdeithasol

---

<sup>22</sup> Efallai y bydd pobl ifanc angen cymorth wrth adrodd am ddelweddau. I gael cyngor a gwybodaeth am adrodd am ddelweddau gweler 'Adrodd am ddelweddau noeth a hanner noeth ar-lein'.

wedi cael gwybod amdanynt, dylai lleoliadau addysg gofnodi eu rheswm dros hynny a sicrhau bod y pennaeth neu reolwr/tîm arwain y lleoliad yn cymeradwyo hynny.

## **Adrodd am ddelweddau noeth a hanner noeth ar-lein**

Efallai y bydd angen help a chymorth ar blant a phobl ifanc wrth ddileu delweddau noeth a hanner noeth oddi ar ddyfeisiau a'r cyfryngau cymdeithasol, yn arbennig os byddant yn anhapus. Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr ar-lein yn cynnig cyfleuster adrodd i ddeiliaid cyfrifon, ac mae rhai yn cynnig cyfleuster adrodd cyhoeddus er mwyn galluogi trydydd parti i adrodd ar ran plentyn neu berson ifanc.

Y ffordd gyflymaf o dynnu cynnwys oddi ar y rhyngwrdd yw i'r person â'i postiodd ei dynnu i lawr. Os bu i'r plentyn neu'r person ifanc bostio'r cynnwys eu hunain gan ddefnyddio ei gyfrif, dylid gofyn iddo fewngofnodi a'i ddileu. Os bu i rywun arall bostio'r ddelwedd neu ailbostio'r ddelwedd, dylid gofyn iddo fewngofnodi a'i dileu oddi ar unrhyw gwefannau mae wedi ei phostio arnynt.

Os yw'r lleoliad yn gwybod ble mae'r cynnwys yn cael ei westeio ond nad yw'n gwybod pwy a'i postiodd, neu bod y sawl a'i postiodd yn gwrthod ei dileu, gellir adrodd am y cynnwys i wasanaeth ar-lein. Os bydd yn torri telerau gwasanaeth y safle, bydd yn cael ei ddileu. Bydd gan bob darparwr ymagwedd wahanol tuag at ddelio â cheisiadau i ddileu cynnwys a bydd cyflymder yr ymateb yn amrywio. Gellir cael rhagor o wybodaeth ar wefannau darparwyr unigol ble dylent fod yn cyhoeddi eu Telerau Gwasanaeth a'r broses adrodd. Nid yw'r rhan fwyaf o'r prif ddarparwyr yn caniatáu cynnwys noeth neu rywiol. Mae delweddau rhywiol o blant yn anghyfreithlon, ac ni ddylai unrhyw ddarparwr eu gwesteio.

Mae canllawiau Net Aware yr NSPCC, sy'n cynnwys gwybodaeth am adnoddau adrodd rhai o'r apiau mwyaf poblogaidd a ddefnyddir gan blant a phobl ifanc, ar gael yn ardal 'Cadw'n ddiogel ar-lein' Hwb yn [hwb.gov.wales/parthau/cadwn-ddiogel-ar-lein/news/articles/ceddbf9e-758c-487a-b514-d5dafbc00e3a](http://hwb.gov.wales/parthau/cadwn-ddiogel-ar-lein/news/articles/ceddbf9e-758c-487a-b514-d5dafbc00e3a).

Os na fydd gan safle gyfleuster adrodd, ac os yw'r cynnwys yn ddelwedd rywiol o rywun dan 18 oed, gallwch adrodd i'r IWF. Gall unrhyw un adrodd yn uniongyrchol i'r IWF yn [www.iwf.org.uk](http://www.iwf.org.uk).

Gall plant a phobl ifanc ddefnyddio adnodd IWF a Childline Report Remove (gweler [www.childline.org.uk/info-advice/bullying-abuse-safety/online-mobile-safety/sexting/report-nude-image-online/](http://www.childline.org.uk/info-advice/bullying-abuse-safety/online-mobile-safety/sexting/report-nude-image-online/)) i adrodd am ddelweddau a fideos noeth a hanner noeth yn gyfrinachol lle maent yn poeni eu bod wedi cael eu rhannu'n gyhoeddus, neu y gallent gael eu rhannu'n gyhoeddus.

Caiff delweddau eu dileu os byddant yn bodloni'r trothwy cyfreithiol ar gyfer gwneud hynny. Rhaid i'r ddelwedd neu'r fideo o leiaf ddangos person o dan 18 oed yn noeth neu'n hanner noeth. Caiff pob achos y cyflwynir adroddiad amdano ei asesu gan ddadansoddwyr IWF sydd wedi cael eu hyfforddi'n ofalus. Mae eu hasesiadau yn gywir ac mae'r heddlu a'r diwydiant rhyngwrdd ledled y byd yn ymddiried ynddynt.



Mae dadansoddwyr IWF yn defnyddio technoleg sy'n cynhyrchu gwerthoedd clwyd (*hashing*) i gynhyrchu ôl-bys digidol o'r ddelwedd a'i dracio i leoliadau eraill ar y we. Gall y ddelwedd gael ei thracio a'i dileu hyd yn oed os bydd wedi cael ei thocio neu ei golygu ychydig. Gall y dechnoleg hon hefyd atal y ddelwedd rhag ymddangos mewn canlyniadau chwilio neu gael ei lanlwytho i'r we yn y dyfodol.

I adrodd am ddelwedd mae angen y canlynol ar blentyn neu berson ifanc:

- cyfrif Childline
- ID sy'n cynnwys llun (os yw rhwng 12 a 17 oed) i brofi ei oedran drwy ap Yoti
- copi o'r llun neu'r fideo, neu ddolen lle mae wedi'i lanlwytho ar-lein.

Gellir dechrau'r broses adrodd yn [www.childline.org.uk/info-advice/bullying-abuse-safety/online-mobile-safety/sexting/report-nude-image-online/](http://www.childline.org.uk/info-advice/bullying-abuse-safety/online-mobile-safety/sexting/report-nude-image-online/).

Darperir cymorth diogelu ac adborth am bob achos o adrodd drwy gyfrif Childline.

Os ydych chi'n pryderu bod plentyn neu berson ifanc yn cael ei gam-drin yn rhywiol, bod rhywun yn meithrin perthynas amhriodol ag ef ar-lein, neu fod rhywun yn camfanteisio arno, dylech gysylltu ag uned reoli Camfanteisio ar Blant a'u Hamddiffyn Ar-lein yr Asiantaeth Trosedd Cenedlaethol (NCA-CEOP) (gweler [www.ceop.police.uk/safety-centre](http://www.ceop.police.uk/safety-centre)).

## **Cefnogi rhieni/gofalwyr**

Gall plant a phobl ifanc ymwneud â rhannu delweddau noeth a hanner noeth mewn nifer o wahanol ffyrdd. Efallai y byddant yn colli rheolaeth o'u delwedd eu hunain, yn cael delwedd o rywun arall neu'n rhannu delwedd o rywun arall. Beth bynnag fo'r sefyllfa, gall rhieni/gofalwyr ei chael hi'n anodd gwybod sut i fynd i'r afael â'r ffaith bod eu plentyn wedi bod ynghlwm wrth ddigwyddiad a gall eu hemosiynau amrywio.

Beth bynnag fo'u teimladau, mae'n bwysig bod pobl broffesiynol yn gwranddo ar eu pryderon ac yn eu trin o ddifri. Hefyd, gall fod yn fuddiol i aelodau o staff a'r heddlu neu ofal cymdeithasol roi sicrwydd i rieni/gofalwyr drwy egluro ei bod yn normal i bobl ifanc fod yn chwilfrydig ynghylch rhyw.

### **Ym mhob sefyllfa, dylai rhieni/gofalwyr:**

- gael eu cefnogi i ddelio â'u teimladau eu hunain o ofid neu bryder, gan gynnwys eu cyfeirio at adnoddau pellach a all eu helpu i ddeall achosion o rannu delweddau noeth a hanner noeth, neu wasanaethau cymorth y gallant gysylltu â nhw, lle y bo'n briodol
- cael cymorth ar sut i siarad â'u plentyn am y digwyddiad
- derbyn cyngor ar y gyfraith mewn perthynas â rhannu delweddau noeth a hanner noeth

- eu diweddarau am unrhyw gamau a gymerwyd neu unrhyw gymorth a roddir i'w plentyn oni bai fod y plentyn dan sylw wedi gofyn yn benodol am i hynny beidio â digwydd ac y bernir ei fod yn ddigon hen i wneud y penderfyniad hwnnw ar sail gwybodaeth
- eu hysbysu am ffynonellau cymorth i'w plentyn, rhag ofn eu bod yn teimlo'n anniddig neu'n isel ynghylch beth sydd wedi digwydd. Gallai hynny gynnwys siarad â chynghorydd Childline yn [www.childline.org.uk](http://www.childline.org.uk) neu ar 0800 11 11, gwasanaethau cwnsela mewnol ble mae hynny ar gael, neu feddyg teulu. Os ydynt yn pryderu bod eu plentyn yn ystyried hunanladdiad, dylent ffonio 999
- eu cynghori i siarad â'r lleoliad am unrhyw achosion o fwlio sy'n gysylltiedig â'r sefyllfa yn unol â'r polisi gwrth-fwlio
- eu cyfeirio at NCA-CEOP yn [www.ceop.police.uk/safety-centre](http://www.ceop.police.uk/safety-centre) os bydd y plentyn neu'r person ifanc yn datgelu unrhyw fanylion pellach a all awgrymu bod rhywun yn meithrin perthynas amhriodol ag ef neu fod rhywun yn camfanteisio arno'n rhywiol.

Yn ogystal â'r cyngor uchod, dylai rhieni/gofalwyr gael y cyngor a'r arweiniad canlynol ar gyfer senarios penodol.

### **Dylai rhieni/gofalwyr plentyn sydd wedi colli rheolaeth ar ddelweddau noeth a hanner noeth:**

- gael cyfarwyddyd i annog y plentyn neu'r person ifanc i ddileu'r delweddau oddi ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol, os yw wedi eu lanlwytho nhw ei hun
- cael eu cyfeirio at adnodd Report Remove Childline yn [www.childline.org.uk/info-advice/bullying-abuse-safety/online-mobile-safety/sexting/report-nude-image-online/](http://www.childline.org.uk/info-advice/bullying-abuse-safety/online-mobile-safety/sexting/report-nude-image-online/). Mae'n rhaid gwneud hynny mor fuan â phosibl er mwyn lleihau nifer y bobl sydd wedi gweld y llun.

### **Dylai rhieni/gofalwyr plentyn sydd wedi derbyn delweddau noeth a hanner noeth gael eu cynghori i:**

- wrando ar bryderon eu plentyn, heb feirniadu ei benderfyniadau
- ystyried ffyrdd y gallai eu plentyn siarad â'r un a anfonodd y llun er mwyn stopio cyfathrebiadau yn y dyfodol. Neu, os byddai'n well gan y plentyn neu'r person ifanc, rhoi gwybod iddo sut mae blocio'r person a anfonodd y llun
- trafod materion cydsynio ac ymddiriedaeth mewn cydberthnasau iach. Egluro nad yw'n iawn i rywun wneud iddo deimlo'n annifyr, i'w roi dan bwysau i wneud pethau nad yw eisiau eu gwneud, neu ddangos pethau iddo y mae'n anhapus yn ei gylch. Egluro y gall siarad allan os bydd hynny byth yn digwydd.

### **Dylai rhieni/gofalwyr plentyn sydd wedi rhannu delwedd plentyn arall:**

- gael eu cynorthwyo i gael sgysiau â'u plant a'u cynghori i:
  - beidio â chynhyrfu, a pheidio â gwylltio â'r plentyn
  - gofyn i bwy yr anfonwyd y ddelwedd ac ym mhle mae wedi cael ei rhannu. Cytuno ar y camau nesaf er mwyn dileu'r ddelwedd, gan gynnwys dileu'r

- ddelwedd oddi ar eu ffôn neu unrhyw gyfrif cyfrwng cymdeithasol a rhoi adroddiad i ddarparwyr gwasanaethau
- nodi a ofynnodd y plentyn am y llun neu a dderbyniwyd y llun ar y cychwyn heb ofyn amdano
- trafod materion cydsynio ac ymddiriedaeth mewn cydberthnasau iach neu gyfeillgarwch. Siarad am y math o bethau sy'n briodol ac yn amhriodol i'w rhannu, a sut y bydden nhw'n teimlo petai rhywun yn rhannu llun personol ohonynt nhw. Os bydd y plentyn wedi gofyn am y llun, eglurwch bwysigrwydd peidio â phwyso ar eraill i gymryd rhan mewn gweithgareddau nad ydynt yn dymuno bod yn rhan ohonynt
- holwch beth oedd eu cymhellion i rannu'r llun a thrafod beth allant fod wedi ei wneud yn wahanol. Os ydynt wedi ymateb i ddigwyddiad trallodus, megis tor perthynas, drwy rannu'r llun, siaradwch am sut ellid fod wedi rheoli eu teimladau mewn ffordd iachach a mwy cadarnhaol
- cael eu cynghori i hysbysu'r lleoliad os byddant yn poeni bod eu plentyn yn ymddwyn mewn ffordd sy'n amhriodol yn rhywiol, a chael eu cyfarwyddo i gysylltu â'u meddyg teulu a/neu wasanaethau cymdeithasol am gyngor ar gael help cynnar a chymorth i'r plentyn gan wasanaethau priodol.

## Adnoddau a chymorth

Mae'n debygol y bydd gwybodaeth i rieni/gofalwyr am rannu delweddau noeth a hanner noeth yn rhan o strategaeth ehangach y lleoliad ar gyfer ymgysylltu â rhieni/gofalwyr ynghylch diogelwch ar-lein. Mae ardal 'Cadw'n ddiogel ar-lein' Hwb yn cynnwys gwybodaeth am ystod eang o ystyriaethau diogelwch ar-lein i blant a phobl ifanc, yn ogystal â darparu gwybodaeth, arweiniad a chyngor sydd wedi'u teilwra ar gyfer rhieni/gofalwyr.

Mae adnoddau penodol ar gael ynghylch rhannu delweddau noeth a hanner noeth i gefnogi rhieni/gofalwyr, sy'n darparu gwybodaeth am y risgiau a'r canlyniadau, yn ogystal â chyngor ymarferol ar sut y gallant gael cymorth i'w plentyn (gweler [hwb.gov.wales/parthau/cadwn-ddiogel-ar-lein/rhieni-a-gofalwyr/canllawiau-rhieni-a-gofalwyr/#sharing-images](http://hwb.gov.wales/parthau/cadwn-ddiogel-ar-lein/rhieni-a-gofalwyr/canllawiau-rhieni-a-gofalwyr/#sharing-images)).

Mae Parent Info ([www.parentinfo.org](http://www.parentinfo.org)) yn darparu gwybodaeth a chyngor i rieni/gofalwyr gan sefydliadau arbenigol ar destunau sy'n amrywio o ryw a chydberthnasau ac iechyd meddwl i ddiogelwch ar-lein; mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am rannu delweddau noeth a hanner noeth. Gellir gwesteio cynnwys Parent Info am ddim ar wefan lleoliad drwy gyfrwng gwasanaeth ffrwd newyddion.

## Llinellau cymorth ac adrodd

- Gall plant siarad â chyngorydd Childline 24 awr y dydd ynglŷn ag unrhyw beth sydd yn eu poeni, drwy ffonio 0800 11 11 neu mewn sgwrs ar-lein yn [www.childline.org.uk/Talk/Chat/Pages/OnlineChat.aspx](http://www.childline.org.uk/Talk/Chat/Pages/OnlineChat.aspx).

- Os bydd rhieni/gofalwyr yn pryderu bod oedolion yn cysylltu â'u plentyn o ganlyniad i rannu delweddau rhywiol, dylent adrodd am hynny i NCA-CEOP yn [www.ceop.police.uk/safety-centre](http://www.ceop.police.uk/safety-centre).
- Os bydd rhieni/gofalwyr yn bryderus am eu plentyn, gallant gysylltu â Llinell Gymorth NSPCC Cymru drwy ffonio 0808 800 5000 neu e-bostio [help@nspcc.org.uk](mailto:help@nspcc.org.uk).
- Meic (gweler [www.meiccymru.org](http://www.meiccymru.org)) yw'r llinell gymorth eirioli, gwybodaeth a chyngor i blant a phobl ifanc 0 i 25 oed yng Nghymru. Gall pobl ifanc ddefnyddio'r gwasanaeth cyfrinachol ac am ddim hwn drwy ffonio (080880 23456), anfon neges destun i (84001), neu gael sgwrs ar-lein ([www.meiccymru.org](http://www.meiccymru.org)).
- Llinell Gymorth Byw Heb Ofn 0808 8010 800 – llinell gymorth 24 awr i bobl sydd wedi neu yn dioddef camdriniaeth ddomestig neu drais rhywiol, neu sy'n pryderu am ffrind neu berthynas.
- Mae Gwefan Byw Heb Ofn yn cynnig cyngor ar gamdriniaeth ddomestig, trais rhywiol a thrais yn erbyn merched <https://llyw.cymru/byw-heb-ofn>.
- Llinell Gymorth Stop it Now! ar gyfer y DU ac Iwerddon (0808 1000 900) am gyngor ar amddiffyn plentyn neu os ydych chi'n pryderu am ei ymddygiad rhywiol. I gael rhagor o wybodaeth neu i anfon neges ar-lein yn ddiennw ewch i'r wefan yn [www.stopitnow.org.uk/concerned-about-a-child-or-young-persons-sexual-behaviour/](http://www.stopitnow.org.uk/concerned-about-a-child-or-young-persons-sexual-behaviour/).

## 4. Addysgu plant a phobl ifanc

### Pam addysgu dysgwyr am rannu delweddau noeth a hanner noeth?

Gall addysgu am faterion diogelu yn y dosbarth atal niwed drwy roi sgiliau, rhinweddau a gwybodaeth i blant a phobl ifanc er mwyn eu helpu i ddelio â risgiau. Mae ymdrin â materion sensitif yn hyrwyddo ymagwedd lleoliad cyfan tuag at ddiogelu, gan roi lle i blant a phobl ifanc archwilio materion allweddol a'r hyder iddynt geisio cymorth gan oedolion petaent yn wynebu problemau.

Mae *Cadw dysgwyr yn ddiogel* yn nodi y dylai pawb sy'n gweithio mewn addysg 'feithrin dealltwriaeth, ymwybyddiaeth a gwydnwch plant [mewn perthynas â diogelu] drwy'r cwricwlwm'. Yn unol â hyn, dylai ysgolion roi cyfleoedd i bobl ifanc ddysgu am fater rhannu delweddau noeth a hanner noeth.

### Sut y dylem addysgu dysgwyr am rannu delweddau noeth a hanner noeth?

Ni ellir dysgu am ddelweddau noeth a hanner noeth ar ei ben ei hun. O ystyried sensitifrwydd posibl y gwersi hyn, mae'n hanfodol bod y mater hwn yn cael ei ddysgu mewn hinsawdd ystafell ddosbarth sy'n emosiynol ddiogel lle mae rheolau sylfaenol clir wedi cael eu trafod a'u sefydlu, a phan fo ffiniau mewn perthynas â chyfrinachedd athrawon wedi cael eu hegluro. Os bydd athro yn amau bod unrhyw blentyn neu berson ifanc yn agored i niwed neu risg, dylid dilyn protocolau diogelu'r lleoliad bob amser.

Dylai lleoliadau ystyried:

- pa adnoddau dysgu penodol sydd ar gael i helpu i addysgu am rannu delweddau noeth a hanner noeth? Gallai hyn gynnwys gwybodaeth ffeithiol, megis:
  - beth ydyw
  - beth yw'r sefyllfaoedd mwyaf tebygol o ddod ar ei draws
  - canlyniadau gofyn am ddelweddau o'r fath, eu rhannu neu'u darparu, gan gynnwys pan fônt yn gamdriniol a phan nad ydynt
  - materion mewn perthynas â chyfreithlondeb
  - y risg o niweidio teimladau ac enw da pobl
- pa ddysgu penodol ddylai ddigwydd er mwyn sicrhau bod gan blant a phobl ifanc y strategaethau a'r sgiliau i **reoli**:
  - ceisiadau penodol neu bwysau i ddarparu (neu rannu) delweddau o'r fath
  - derbyn delweddau o'r fath.

Bydd hyn yn cynnwys wrth pwy y dylid dweud; beth i'w ddweud; beth i'w wneud; beth na ddylid ei wneud ac o ble mae cael cymorth yn y lleoliad a thu allan.

Mae'n bwysig cydnabod pa mor anodd y gall hi fod i blant a phobl ifanc herio neu wrthod ceisiadau gan eu cyfoedion am ddelweddau, yn arbennig gan rai sy'n ddeniadol iddynt neu rai maent yn ceisio cymeradwyaeth ganddynt. Hefyd, gall fod yn anodd iddynt ofyn i oedolion am help. Efallai bod plant a phobl ifanc wedi gwneud penderfyniad y maent bellach yn ei ddifaru ac efallai eu bod yn cael anhawster gofyn am help, neu bod hynny'n achosi embaras iddynt. Mae'n hanfodol bod gwersi yn helpu plant a phobl ifanc i ddatblygu'r hyder y byddant efallai ei angen i roi eu sgiliau a'u strategaethau ar waith.

Felly mae'n bwysig bod plant a phobl ifanc yn deall polisi eu lleoliad ynghylch rhannu delweddau noeth a hanner noeth. Gellir archwilio cynnwys y polisi hwn a'r protocolau fydd y lleoliad yn eu dilyn yn achos digwyddiad fel rhan o'r dysgu hwn. Mae hyn yn atgyfnerthu natur amhriodol ymddygiadau camdriniol a gall roi sicrwydd i blant a phobl ifanc y bydd eu lleoliad yn eu cynorthwyo os byddant yn cael anawsterau neu os bydd ganddynt bryderon.

- pa **ddysgu amddiffynnol tanategol** a gynigir gan gynllun addysg bersonol a chymdeithasol (ABaCh) yr ysgol a'r cwricwlwm ehangach? Bydd hynny'n cynnwys gwaith ar:
  - gyfathrebu
  - deall cydberthnasau iach, gan gynnwys ymddiriedaeth
  - deall a pharchu'r cysyniad o gydsynio
  - deall ein hawliau (yn arbennig ein hawl ar y cyd i **fod** yn ddiogel a **themlo'n** ddiogel)
  - adnabod iaith ac ymddygiadau gamdriniol ac sy'n gorfodi
  - cydnabod a herio beio'r dioddefwr a normau cymdeithasol niweidiol megis yr hyn a elwir yn '*slut-shaming*' yn Saesneg
  - derbyn ein cyfrifoldebau (yn arbennig ein cyfrifoldeb i barchu ymddiriedaeth pobl eraill ac amddiffyn eu hawl i fod yn gorfforol ac emosiynol ddiogel ac i amddiffyn eu henw da).

Mae *Fframwaith addysg bersonol a chymdeithasol ar gyfer rhai 7-19 oed yng Nghymru* (2008) yn darparu canllaw i leoliadau ynghylch sut mae cynllunio a darparu rhaglenni ABaCh eang a chytbwys er mwyn bodloni anghenion penodol dysgwyr.

### **Cwricwlwm Cymru – Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles**

Mae Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles yn darparu strwythur holistaidd ar gyfer deall iechyd a lles. Mae'n ymwneud â datblygu gallu dysgwyr i wynebu heriau a chyfleoedd bywyd. Elfennau sylfaenol y Maes hwn yw iechyd a datblygiad y corff, iechyd meddwl, a lles emosiynol a chymdeithasol. Bydd yn cefnogi dysgwyr i ddeall a gwerthfawrogi sut mae gwahanol elfennau iechyd a lles yn gysylltiedig â'i gilydd. Mae hefyd yn cydnabod bod iechyd a lles yn bwysig i alluogi dysgu llwyddiannus.

Rhoddir arweiniad i helpu ysgolion a lleoliadau i ddatblygu Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles eu cwricwlwm eu hunain yn [hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/iechyd-a-lles](http://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/iechyd-a-lles).

## **Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb**

Mae addysg cydberthynas a rhywioldeb yn chwarae rôl allweddol wrth wella lles a diogelwch dysgwyr a bydd yn orfodol pan gyflwynir y cwricwlwm newydd yn 2022.

Mae gan leoliadau rôl bwysig i'w chwarae o ran atal ac amddiffyn, gan ymateb i gwestiynau ac anghenion dysgwyr a'u trafod. Mae ganddyn nhw y potensial i greu amgylcheddau diogel a grymusol sy'n adeiladu ar ddysgu a phrofiadau ffurfiol ac anffurfiol dysgwyr, a hynny all-lein ac ar-lein. Mae cyfoethogi llais ac annibyniaeth y dysgwyr yn egwyddor allweddol ar gyfer ymwreiddio addysg cydberthynas a rhywioldeb o fewn y cwricwlwm a dylai dysgwyr gael eu gwahodd i gymryd rhan mewn trafodaethau sy'n hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol ar gyfer cydraddoldeb a lles rhyw, rhywiol a chydberthynas, yn ogystal â chael eu cefnogi i fynegi eu safbwyntiau am ystod o faterion sy'n ymwneud ag addysg cydberthynasau a rhywioldeb, gan gynnwys rhannu delweddau noeth a hanner noeth.

Cynigir y bydd dyletswydd ar ysgolion i ddarparu addysg cydberthynas a rhywioldeb. Caiff canllawiau pellach eu cyhoeddi cyn 2022 i gefnogi hyn. Bydd hyn yn cynnwys canllawiau ar destunau a dysgu sy'n cefnogi addysg cydberthynas a rhywioldeb a'r ffordd y gall pob Maes gyfrannu atyn nhw (gweler [hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cynllunio-eich-cwricwlwm/themau-trawsgwricwlaidd-ar-gyfer-cynllunio-eich-cwricwlwm](http://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cynllunio-eich-cwricwlwm/themau-trawsgwricwlaidd-ar-gyfer-cynllunio-eich-cwricwlwm)).

## **Pryd mae addysgu dysgwyr am y materion hyn?**

Mae'n hanfodol bod y dysgu hwn yn briodol o ran oedran a pharodrwydd, a bod plant a phobl ifanc yn ystyried ei fod yn gytbwys a pherthnasol i'w profiadau o fywyd real. Gall gweithio gyda phlant a phobl ifanc wrth gynllunio'r gwersi hyn helpu i sicrhau bod gwersi yn briodol a pherthnasol.

Ystyriwch sut y gellir ategu'r dysgu hwn drwy ddarparu'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol, yn benodol, drwy'r llinyn Dinasyddiaeth. Cafodd y fframwaith ei ddarparu ym mis Medi 2016 ac mae wedi cael ei fireinio'n ddiweddar i ategu Cwricwlwm i Gymru (gweler [hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/fframweithiau-r-sgiliau-trawsgwricwlaidd](http://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/fframweithiau-r-sgiliau-trawsgwricwlaidd)).

Mae Dinasyddiaeth yn un o bedwar llinyn yn y fframwaith, a chaiff ei rannu yn bedair elfen. Drwy'r elfennau hyn bydd dysgwyr yn dod i ddeall beth yw bod yn ddinesydd digidol cydwybodol sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at y byd digidol o'u cwmpas ac sy'n gwerthuso'n feirniadol eu lle o fewn y byd digidol hwn. Bydd dysgwyr yn barod am agweddau cadarnhaol a negyddol o fod yn ddinesydd digidol, a byddan nhw'n datblygu strategaethau a dulliau i'w helpu wrth iddyn nhw ddatblygu'n gynhyrchwyr ac yn ddefnyddwyr annibynnol.

Y pedair elfen wahanol yw:

- Hunaniaeth, delwedd ac enw da
- Iechyd a lles



- Hawliau digidol, trwyddedu a pherchenogaeth
- Ymddygiad ar-lein a bwlio ar-lein.

## Sut y gallwn ni ddarparu addysg yn ddiogel?

Dylai addysgu adlewyrchu arferion gorau wrth ddarparu addysg ddiogel ac effeithiol, gan gynnwys y canlynol<sup>23</sup>.

- **Diogelu yn gyntaf** – Sicrhau bod diogelwch a lles pob plentyn yn dod yn gyntaf drwy greu amgylchedd dysgu emosiynol ddiogel a dilyn polisïau a gweithdrefnau diogelu neu amddiffyn plant y lleoliad addysg os bydd datgeliad.
- **Gweithredu o safbwynt y plentyn** – Mae'n bwysig deall beth mae bod ar-lein yn ei olygu i blant a phobl ifanc a'u cydberthnasau ac edrych ar y cyfleoedd cadarnhaol a gynigir ganddo, yn ogystal â'r risgiau.
- **Hybu deialog a dealltwriaeth** – Mae plant a phobl ifanc yn teimlo fwyaf diogel pan fydd rhywun yn gwrandao arny'n nhw ac yn eu deall, a'u bod yn gwybod y gallant ofyn i oedolion maent yn ymddiried ynddynt am help pan fo ei angen.
- **Grymuso a galluogi plant a phobl ifanc** – Mae gan blant a phobl ifanc yr hawl i gael eu hamddiffyn rhag niwed, a chael eu cefnogi i feithrin yr wybodaeth, y sgiliau a'r hyder a fydd yn eu helpu i nodi risg a chael cymorth pan fo ei angen.
- **Byth codi ofn** – Mae addysg sy'n codi ofn yn risg, neu'n gallu bod yn wrthgynhyrchiol hyd yn oed. Ni ddylid codi ofn ar blant a phobl ifanc, eu teuluoedd na gweithwyr proffesiynol eraill.
- **Herio agweddau sy'n beio dioddefwyr** – Gall rhai plant, pobl ifanc ac oedolion ddangos agweddau sy'n beio dioddefwyr o ran rhannu delweddau noeth a hanner noeth. Dylai'r rhain gael eu herio mewn ffordd adeiladol a chefnogol sy'n eu hannog i feddwl yn feirniadol am yr iaith a ddefnyddir ganddynt.

## Defnyddio ymarferwyr allanol

Gall y defnydd o ymarferwyr o sefydliadau eraill i gefnogi addysg am rannu delweddau noeth a hanner noeth fod o fudd mawr, ond dylid sicrhau bod unrhyw ddefnydd ohonynt yn effeithiol. Dylai ymarferwyr allanol gael eu defnyddio i wella arlwy lleoliad yn hytrach nag addysgu ar wahân.

Mae'n bwysig ystyried y canlynol:

- sut y defnyddir yr ymwelydd allanol i gyflawni eich nodau a'ch amcanion
- a ydych chi'n dewis yr ymwelydd allanol cywir – a oes ganddo'r sgiliau a'r wybodaeth ofynnol? A yw ei adnoddau'n briodol? A yw ei neges allweddol yn adlewyrchu eich ethos/dull diogelu?

---

<sup>23</sup> Gwerthoedd a gymerir o raglen addysg Thinkuknow NCA-CEOP. Ar gael ar: (gweler [www.thinkuknow.co.uk/professionals](http://www.thinkuknow.co.uk/professionals)).



- sut y byddwch yn diogelu cymuned eich lleoliad
- sut y byddwch yn gwerthuso ei fewnbwn ac yn asesu ei effaith.

## **Pa adnoddau sydd ar gael?**

Mae'r ardal 'Cadw'n ddiogel ar-lein' ar Hwb (gweler [hwb.gov.wales/parthau/cadwn-ddiogel-ar-lein/](http://hwb.gov.wales/parthau/cadwn-ddiogel-ar-lein/)) yn darparu adnoddau dwyieithog ar ystod eang o faterion sy'n ymwneud â diogelwch ar-lein i wahanol gynulleidfaoedd, gan gynnwys plant a phobl ifanc, ymarferwyr, rhieni/gofalwyr a llywodraethwyr. Mae nifer o adnoddau sy'n ymwneud yn benodol â rhannu delweddau noeth a hanner noeth (weithiau fe'i gelwir yn secstio yn yr adnoddau).

Ceir trosolwg o'r adnoddau dwyieithog sy'n ymwneud â rhannu delweddau, a all gael eu defnyddio i gefnogi gwersi, yn [hwb.gov.wales/parthau/cadwn-ddiogel-ar-lein/ymarferwyr-a-gweithwyr-proffesiynol/canllawiau-ymarferwyr-addysg/#sharing-images](http://hwb.gov.wales/parthau/cadwn-ddiogel-ar-lein/ymarferwyr-a-gweithwyr-proffesiynol/canllawiau-ymarferwyr-addysg/#sharing-images).

Dylech gyfeirio at y dudalen sefydliadau a phartneriaid dibynadwy os hoffech gael rhagor o arweiniad, adnoddau a/neu gymorth arbenigol (gweler [hwb.gov.wales/parthau/cadwn-ddiogel-ar-lein/sefydliadau-a-phartneriaid-dibynadwy/](http://hwb.gov.wales/parthau/cadwn-ddiogel-ar-lein/sefydliadau-a-phartneriaid-dibynadwy/)).

Mae'r dudalen hon yn cynnwys gwybodaeth gyfeirio ar gyfer sefydliadau gan gynnwys Barnado's, Childline, NSPCC, SchoolBeat Cymru, NCA-CEOP (gweler yn benodol raglen addysg Thinkuknow), Stop it Now! Cymru, ac eraill sy'n arbenigo yn y maes hwn.

## Atodiad A: Cwestiynau i gefnogi asesiad

Wrth benderfynu cynnwys yr heddlu ai peidio a/neu wasanaethau cymdeithasol plant, dylid ystyried y cwestiynau canlynol. Bydd ateb y cwestiynau hyn yn cynorthwyo'r DSP wrth ystyried a yw plentyn neu berson ifanc yn wynebu risg o niwed, ac os ydyw bydd yn briodol rhoi adroddiad am yr achos, p'un a oes angen mwy o wybodaeth neu gymorth gan asiantaethau eraill neu a all y lleoliad reoli'r digwyddiad a chynorthwyo'r bobl ifanc yn uniongyrchol.

### **A oes gennych chi unrhyw bryderon am y ffaith bod y plentyn neu'r person ifanc yn agored i niwed?**

<p>Pam gofyn y cwestiwn hwn?</p>	<p>Dylid ystyried a yw amgylchiadau, rhywioldeb neu gefndir person ifanc yn golygu ei fod yn fwy agored i niwed. Gallai hynny gynnwys bod mewn gofal, bod ag anghenion dysgu ychwanegol neu anabledd, bod yn ofalwr ifanc, neu fod wedi dioddef camdriniaeth. Nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysfawr a dylid ystyried pob achos yn unigol. Os oes gan y plentyn weithiwr cymdeithasol, dylech roi gwybod i'r gwasanaethau cymdeithasol am y digwyddiad.</p> <p>Pan fo pryderon ehangach am ofal a llesiant person ifanc, dylid ystyried atgyfeirio i wasanaethau cymdeithasol plant.</p>
----------------------------------	--

### **Pam y rhannwyd y ddelwedd noeth neu hanner noeth? A wnaethpwyd hynny'n gydsyniol neu a roddwyd pwysau ar y plentyn neu'r person ifanc?**

<p>Pam gofyn y cwestiwn hwn?</p>	<p>Mae cymhellion plant a phobl ifanc dros rannu delweddau noeth a hanner noeth yn cynnwys fflyrtio, meithrin ymddiriedaeth mewn perthynas ramantus, ceisio sylw, neu am eu bod yn meddwl ei fod yn rhywbeth doniol i'w wneud ac na wnaethant feddwl am y canlyniadau.</p> <p>Er bod yna risgiau amlwg pan rennir delweddau'n gydsyniol, mae plant a phobl ifanc sydd wedi cael eu rhoi dan bwysau i rannu delweddau noeth a hanner noeth yn fwy tebygol o adrodd am ganlyniadau negyddol.</p> <p>Dylid adrodd am yr achos i'r heddlu os bydd plentyn neu berson ifanc wedi cael ei roi dan bwysau i rannu delweddau noeth a hanner noeth, neu pan fo delwedd yn cael ei rhannu heb gydsyniad a gyda bwriad maleisus.</p> <p>Hefyd dylid ystyried lefel aeddfedrwydd y plentyn neu'r person ifanc ac effaith unrhyw anghenion dysgu ychwanegol ar eu dealltwriaeth o'r sefyllfa.</p>
----------------------------------	--

	<p>Dylid cymryd camau, yn unol â pholisi ymddygiad y lleoliad, gydag unrhyw blentyn neu berson ifanc a gafodd ei roi dan bwysau neu ei gymell i rannu delweddau noeth a hanner noeth. Os bydd hynny'n rhan o batrwm o ymddygiad, dylech ystyried atgyfeirio i wasanaeth ymddygiad rhywiol niweidiol (drwy wasanaethau cymdeithasol), megis gwasanaeth Taith Barnardo's. Hefyd, mae gan yr NSPCC wasanaeth, sef Protect and Respect, ar gyfer plant a phobl ifanc 11–19 oed y mae angen cymorth arnynt o bosibl i ddysgu am gydberthynas iach neu ar gyfer y plant a phobl ifanc hynny y gall rhywun fod yn camfanteisio arnynt yn rhywiol.</p>
--	--

**A yw'r ddelwedd noeth a hanner noeth wedi cael ei rhannu'n fwy eang nag i'r un y bwriadwyd iddo ei derbyn? A rannwyd y ddelwedd heb gydsyniad y plentyn neu'r person ifanc a gynhyrchodd y ddelwedd?**

<p>Pam gofyn y cwestiwn hwn?</p>	<p>Efallai bod y ddelwedd wedi cael ei rhannu ar y cychwyn gyda chydsyniad, ond ei bod wedyn wedi cael ei rhannu ag eraill. Efallai bod plentyn neu berson ifanc wedi rhannu'r ddelwedd ymhellach gyda bwriad maleisus, neu efallai nad oedd yn deall yn iawn beth fyddai'r canlyniadau posibl.</p> <p>Hefyd dylid ystyried lefel aeddfedrwydd y plentyn neu'r person ifanc ac effaith unrhyw anghenion dysg ychwanegol ar ei ddealltwriaeth o'r sefyllfa.</p> <p>Dylid hysbysu'r heddlu drwy MASH neu'r hyn sy'n cyfateb iddo os bwriadwyd achosi niwed drwy rannu'r ddelwedd neu os defnyddiwyd y ddelwedd er mwyn bwlio neu flacmelio plentyn neu berson ifanc.</p>
----------------------------------	--

**A rannwyd y ddelwedd noeth neu hanner noeth ar y cyfryngau cymdeithasol neu'n unrhyw le arall ar-lein? Os digwyddodd hynny, pa gamau a gymerwyd i gyfyngu ar ledaenu'r ddelwedd?**

<p>Pam gofyn y cwestiwn hwn?</p>	<p>Os rhannwyd y ddelwedd yn eang ar y cyfryngau cymdeithasol, gallai hynny achosi embaras sylweddol i'r plentyn neu'r person ifanc a gallai effeithio'n hirdymor ar ei enw da. Gallai hefyd gynyddu'r risg iddo gael ei fwlio neu ddod i gysylltiad â dieithriaid ar-lein.</p> <p>Dylai'r plentyn neu'r person ifanc gael ei gefnogi i adrodd am y ddelwedd i unrhyw wefannau y mae'n ymddangos arnynt. Mae gwybodaeth am adrodd ar gael yn adran 3.</p> <p>Os yw'r plentyn neu'r person ifanc wedi ceisio adrodd am y ddelwedd, ac nad yw wedi'i dileu, dylai ddefnyddio adnodd</p>
----------------------------------	---

	<p>IWF a Childline Report Remove yn <a href="http://www.childline.org.uk/info-advice/bullying-abuse-safety/online-mobile-safety/sexting/report-nude-image-online/">www.childline.org.uk/info-advice/bullying-abuse-safety/online-mobile-safety/sexting/report-nude-image-online/</a>.</p> <p>Os bydd angen iddo siarad â rhywun yn ddiennw yna gall Childline neu Meic gynnig cymorth emosiynol.</p> <p>Gellir ffonio Llinell Gymorth Diogelwch Ar-lein Gweithwyr Proffesiynol (POSH) am ragor o gyngor a chymorth.</p> <p>Os bydd dieithriaid sydd wedi gweld y ddelwedd yn cysylltu â pherson ifanc, dylech adrodd am hynny i NCA-CEOP.</p>
--	---

<b>Beth yw oedran y person ifanc neu'r bobl ifanc dan sylw?</b>	
<p>Pam gofyn y cwestiwn hwn?</p>	<p>Nid yw plant o dan 13 oed yn gallu cydsynio i weithgaredd rhywiol. Er mai 16 yw'r oedran cydsynio i unrhyw fath o weithgaredd rhywiol, mae Deddf Troseddau Rhywiol 2003 yn darparu gwarchodaeth ychwanegol rhag camdriniaeth rywiol i blant o dan 13 oed, oherwydd ni allant roi cydsyniad cyfreithiol i unrhyw fath o weithgaredd rhywiol. Dylid cyfeirio unrhyw ddelwedd sy'n cynnwys gweithgaredd rhywiol gan rywun o dan 13 oed i'r heddlu.</p> <p>Gall fod yn hŷn roi pŵer i rywun mewn perthynas, felly os oes yna wahaniaeth oedran sylweddol, gall hynny fod yn arwydd bod y plentyn neu'r person ifanc wedi teimlo dan bwysau i gymryd y ddelwedd/fideo neu i'w rhannu.</p> <p>Hefyd dylid ystyried lefel aeddfedrwydd y plentyn neu'r person ifanc ac effaith unrhyw anghenion dysgu ychwanegol ar ei ddealltwriaeth o'r sefyllfa.</p> <p>Os ydych chi'n credu bod y ddelwedd yn cynnwys gweithredoedd na fydddech chi'n disgwyl i blentyn neu berson ifanc o'r oedran hwnnw fod yn ymwneud â hwy, dylech adrodd y mater i'r heddlu, drwy MASH neu'r hyn sy'n cyfateb iddo. Gall <a href="http://www.brook.org.uk/our-work/the-sexual-behaviours-traffic-light-tool/">Adnodd Goleuadau Traffig Ymddygiadau Rhywiol Brook</a> (gweler <a href="http://www.brook.org.uk/our-work/the-sexual-behaviours-traffic-light-tool/">www.brook.org.uk/our-work/the-sexual-behaviours-traffic-light-tool/</a>) gael ei ddefnyddio i'ch helpu gyda'r asesiad hwn.</p>

<b>A fu i'r plentyn neu'r person ifanc anfon y ddelwedd i fwy nag un person?</b>	
<p>Pam gofyn y cwestiwn hwn?</p>	<p>Os bydd plentyn neu berson ifanc yn rhannu delweddau noeth a hanner noeth â nifer o bobl, gallai hynny fod yn arwydd bod</p>

	<p>ganddo broblemau y mae angen cymorth i'w datrys. Dylid ystyried eu cymhelliant i rannu'r delweddau.</p> <p>Os ydych chi'n credu bod pryderon ehangach yn bodoli mewn perthynas â diogelu, dylech gyfeirio'r mater i'r gwasanaethau cymdeithasol plant neu'r heddlu, drwy MASH neu'r hyn sy'n cyfateb iddo.</p>
--	---

<b>A yw'r plentyn neu'r person ifanc yn deall goblygiadau posibl rhannu'r ddelwedd noeth neu hanner noeth?</b>	
Pam gofyn y cwestiwn hwn?	<p>Gall plant a phobl ifanc gynhyrchu neu rannu delweddau heb ddeall yn iawn beth yw canlyniadau'r hyn maent yn ei wneud. Efallai nad ydynt, er enghraifft, yn deall sut mae hynny'n achosi risg iddyn nhw eu hunain neu'n achosi niwed i berson ifanc arall. Hefyd, efallai nad ydynt yn deall beth yw cydsynio.</p> <p>Gall archwilio eu dealltwriaeth eich helpu i gynllunio ymateb priodol, a'ch helpu i asesu, er enghraifft, a ydynt wedi rhannu delwedd yn fwriadol er mwyn achosi niwed.</p>

<b>A oes yna bryderon ychwanegol os hysbysir y rhieni/gofalwyr?</b>	
Pam gofyn y cwestiwn hwn?	<p>Dylid hysbysu'r rhieni/gofalwyr am ddigwyddiadau o'r natur hwn oni bai fod yna reswm da i gredu y gallai eu hysbysu achosi risg i'r plentyn neu'r person ifanc. Gallai hynny fod o ganlyniad i bryderon ynghylch camdriniaeth gan rieni/gofalwyr neu ffactorau diwylliannol neu grefyddol allai effeithio ar sut y bydden nhw neu eu cymuned yn ymateb.</p> <p>Os bydd plentyn neu berson ifanc yn cyfeirio at bryderon ynghylch cynnwys eu rhieni/gofalwyr dylai'r DSP ddefnyddio ei farn broffesiynol i benderfynu a yw'n briodol cynnwys y rhieni/gofalwyr, a phryd y dylid gwneud hynny. Os bydd lleoliad yn dewis peidio â chynnwys rhieni/gofalwyr, mae'n rhaid iddo gofnodi'n glir beth yw'r rhesymau dros beidio â gwneud hynny.</p> <p>Pan fo'n bosibl, dylid cynorthwyo plant a phobl ifanc i siarad â'u rhieni/gofalwyr am y pryderon.</p>

## **Atodiad B: Gweithgaredd hyfforddiant staff**

### **Taflen cyfarwyddiadau ar gyfer y gweithgaredd**

Gall DSP ddefnyddio'r gweithgaredd hwn er mwyn archwilio mater delweddau noeth a hanner noeth gyda staff. Fe'i dyluniwyd i ddarlunio amrywiaeth o senarios, ac mae'n amlygu bod angen ystyried ymateb priodol a chymesur ar gyfer pob digwyddiad.

### **Cyfarwyddiadau i'r hyfforddwr**

#### **Adnoddau angenrheidiol**

- Taflen adnoddau 1 – diffiniadau teipoleg (un i bob cynrychiolydd)
- Taflen adnoddau 2 – astudiaethau achos (un i bob grŵp)
- Taflen adnoddau 3 – ymateb (un i bob cynrychiolydd)
- Cerdyn lliw – chwe lliw
- Pwti gludiog

#### **Gwaith paratoi**

A – Paratowch set o gardiau astudiaethau achos i bob grŵp (mae hyn yn cymryd ychydig o amser, ond gall y cardiau gael eu hailddefnyddio). Os yw'n well gennych, gallwch ddefnyddio astudiaethau achos anhysbys rydych chi'n ymwybodol ohonynt.

Mae'r 15 astudiaeth achos (Taflen adnoddau 2) yn cyfateb i'r chwe chategori teipoleg, fel a ganlyn:

- gwaethygedig – oedolyn (astudiaethau achos 4 a 7)
- gwaethygedig – person Ifanc gyda bwriad o niweidio (astudiaethau achos 3, 5, 6, 8 a 12)
- gwaethygedig – person ifanc, camddefnydd byrbwyll (astudiaethau achos 9 a 10)
- arbrofol – rhamantus (astudiaethau achos 2, 11 a 12)
- arbrofol – ceisio sylw (astudiaethau achos 1, 13, 14)
- arbrofol – arall (astudiaeth achos 15)

Aseiniwch gerdyn lliw penodol i bob un o'r chwe chategori uchod, yna torrwch pob un o'r 15 astudiaeth achos a'u gosod yn unol â hynny.

B – Paratowch chwech o gardiau ‘pennawd’ gwyn ar gyfer eu gosod ar wal – dylai teitl un o’r teipolegau fod ar bob cerdyn.

### **Gweithgaredd**

1. Rhannwch y cynrychiolwyr yn grwpiau o 3–4. Pan fo’n briodol, cymysgwch y cynrychiolwyr fel eu bod yn cynnwys ystod eang o brofiad/swyddi etc.

2. Rhowch set o gardiau astudiaethau achos i bob grŵp (y 15 os bydd amser yn caniatáu, os nad, sicrhewch bod ganddynt o leiaf un o bob lliw).

3. Dywedwch wrth y cynrychiolwyr am ddarllen pob astudiaeth ac ystyried y cwestiynau canlynol fel grŵp.

- Pa lefel risg maent yn credu sy’n gysylltiedig â phob achos – gwyrdd/coch/melyn?
- Pa gamau ddylai’r lleoliad eu cymryd?
- Yn ystod y cam hwn, pa rai o’r astudiaethau achos fyddent yn eu hatgyfeirio i’r heddlu a/neu wasanaethau cymdeithasol?

Ar y cam hwn, amlinelliad/cynllun gweithredu syml – dim mwy na thri munud i bob achos.

4. Rhowch gopi o Daflen adnoddau 1 i bob aelod o’r grwpiau a thrafod teipoleg Finkelhor a Wolak gyda nhw. Bydd teipoleg Finkelhor a Wolak yn eu helpu i ddiffinio’r math o digwyddiad a bydd hefyd yn eu helpu i benderfynu ar yr ymateb priodol a chymesur.

5. Rhowch gopi o Daflen adnoddau 3 i bob cynrychiolydd a gofyn iddynt fel grŵp i benderfynu pa categori o deipoleg fyddent yn ei aseinio i bob astudiaeth achos. Gofynnwch iddynt gofnodi unrhyw sylwadau ar eu taflenni.

6. Tra bod y cynrychiolwyr yn gweithio, defnyddiwch y pwti gludiog i osod y chwe cherdyn ‘pennawd’ o gwmpas yr ystafell.

7. Ar ôl i’r cynrychiolwyr gategoreiddio pob un o’u hastudiaethau achos, gofynnwch iddynt osod y cardiau ar y wal o dan y cerdyn ‘pennawd’ priodol sydd o gwmpas yr ystafell. (Daw’n amlwg yn eithaf sydyn bod y lliwiau’n cyfateb mewn grwpiau ac mae’n dangos pan fo grwpiau’n cytuno/anghytuno ar gategoreiddio.)

8. Rhowch sylwadau ar yr enghreifftiau o gytuno ac anghytuno er mwyn amlygu'r amrywiaeth yn y ffordd o feddwl rhwng y grwpiau.

9. Dewiswch amrywiaeth o ddigwyddiadau sy'n adlewyrchu'r gwahanol deipolegau e.e. rhamantus, ceisio sylw, gwaethygedig – oedolyn, etc., a gofyn i'r cynrychiolwyr ystyried y canlynol.

- A yw unrhyw rai o'r astudiaethau achos yn adlewyrchu unrhyw rai o'r pum pwynt ar gyfer atgyfeirio ar unwaith i asiantaethau eraill?
- Os ydynt, i ba asiantaeth allanol dylid atgyfeirio, a pham?
- Os nad oes angen atgyfeirio i asiantaeth allanol, pam ddim?

10. Yn achos yr astudiaethau achos na chyrhaeddodd y trothwy atgyfeirio, gofynnwch i'r grwpiau ystyried eu hymateb. Dylai hynny gynnwys ystyriaeth o sut fyddent yn ymateb fel lleoliad. Dylent ystyried y canlynol:

- Sut byddid yn rhoi cymorth i'r plentyn?
- Sut byddid yn hysbysu'r rhieni/gofalwyr?
- Sut byddid yn delio â dileu neu waredu'r delweddau?
- Sut byddid yn cofnodi'r digwyddiad?
- Pwy fyddai'n arwain o ran rheoli'r digwyddiad?
- Beth fyddai'n digwydd ar ôl rheoli'r digwyddiad?

11. Caniatewch i grwpiau bach drafod y testunau hyn, a phan fo'n bosibl anogwch hwy i gyfeirio at brif gorff y cyngor. Cyfeiriwch at unrhyw elfennau allweddol i'w trafod a manteisiwch ar y cyfle i atgoffa staff am unrhyw bolisiâu a gweithdrefnau perthnasol mewn perthynas â rheoli digwyddiadau o ddelweddau rhywiol a gynhyrchir gan ieuenctid.



**Taflen Adnoddau 1** (Addaswyd o Wolak a Finkelhor ‘Sexting: a Typology’ Mawrth 2011)

<p>Mae <b>digwyddiadau gwaethygedig</b> yn cynnwys elfennau troseddol neu gamdriniol y tu hwnt i greu, anfon neu feddu ar ddelweddau noeth neu hanner noeth.</p>	<p>Mae <b>troseddwr sy’n oedolion</b> yn ceisio paratoi pobl ifanc yn eu harddegau i gyflawni troseddau rhywiol hyd yn oed heb ddefnyddio delweddau a gynhyrchir gan ieuenctid. Gall dioddefwyr fod yn ffrindiau i’r teulu, perthnasau, aelodau o’r gymuned neu bobl y cysylltir â hwy ar y rhynggrwyd. Gall y delweddau rhywiol a gynhyrchir gan ieuenctid gael eu rhannu gyda’r troseddwr sy’n oedolion ar ôl iddynt ofyn amdanynt.</p>
	<p>Mae <b>leuenctid yn unig: achosion o fwriad i niweidio</b> yn deillio o wrthdaro rhyngpersonol megis tor perthynas a gwrthdaro ymysg ffrindiau gan gynnwys ymddygiad troseddol neu gamdriniol megis blacmel, bygythiadau neu dwyll, neu gamdriniaeth neu gamfanteisio rhywiol gan bobl ifanc.</p>
	<p>Yn achos achosion <b>leuenctid yn unig</b>: gyda <b>chamddefnydd di-hid</b> nid oes bwriad i niweidio, ond mae delweddau yn cael eu cymryd neu eu hanfon yn ddjarwybod i’r person ifanc yn y llun neu heb iddo gymryd rhan yn fwriadol yn y digwyddiad. Yn yr achosion hyn mae lluniau yn cael eu tynnu neu eu hanfon yn ddifeddwl neu’n fyrbwyll, ac efallai y bydd dioddefwr yn cael ei niweidio o ganlyniad i hynny.</p>
<p>Mae <b>digwyddiadau arbrolfol</b> yn ymwneud â chreu ac anfon delweddau noeth neu hanner noeth, heb unrhyw gysylltiad ag oedolyn, dim bwriad amlwg i niweidio na chamddefnydd byrbwyll.</p>	<p>Mae achosion <b>rhamantus</b> yn cynnwys pobl ifanc mewn cydberthnasau parhaus sy’n creu delweddau ar gyfer eu hunain neu ei gilydd – ni fwriadwyd i’r delweddau gael eu rhannu i neb heblaw'r pâr dan sylw.</p>
	<p><b>Ceisio sylw rhywiol</b>: daw'r ymadrodd 'ceisio sylw rhywiol' neu '<i>sexual attention seeking</i>' yn uniongyrchol o'r deipoleg; fodd bynnag, mae'n bwysig nodi y gall digwyddiadau yn y categori hwn fod yn rhan o blentyndod arferol. Ni ddylai plentyn na person ifanc gael ei feio am dynnu a rhannu delwedd ohono ei hun.</p>
	<p><b>Arall: ceir</b> achosion lle nad yw'n ymddangos bod elfennau gwaethygedig yn perthyn iddynt, gan gynnwys cyfranogiad oedolyn, cymhellion maleisus neu gamddefnydd byrbwyll, ac nad ydynt ychwaith yn perthyn i’r is-fathau 'rhamantus' neu 'geisio sylw'. Mae'r rhain naill ai'n ymwneud â phobl ifanc sy'n tynnu lluniau ohonynt eu hunain ar eu cyfer eu hunain (dim tystiolaeth o anfon neu rannu na bwriad i wneud hynny) neu blant cyn glasod (naw oed neu iau) nad yw'n ymddangos bod ganddynt gymhellion rhywiol.</p>



## Taflen adnoddau 2: Astudiaethau achos

Astudiaethau achos wedi eu haddasu o *Sexting: A typology* gan J Wolak a D Finkelhor (Prifysgol New Hampshire – Crimes against Children Research Center, 2011).

### Astudiaeth achos 1

Roedd un ferch (naw oed gyda mân anawsterau dysgu) yn siarad â grŵp o ffrindiau o'r ysgol drwy gyfrwng ap negeseuon poblogaidd. Roedd ei ffôn symudol, a oedd â chamera, i fyny'r grisiau yn ei hystafell. Roedd yn paratoi i fynd i'r gwely ac yn eistedd mewn tywel a 'fflachiodd' ar we-gamera. Y diwrnod canlynol, bu i ddysgwr arall (merch 10 oed) o'r grŵp ddweud wrth yr athro dosbarth yn yr ysgol beth oedd wedi digwydd, ac yn ei thro bu i honno adrodd am ei phryder i'r pennaeth.

### Astudiaeth achos 2

Bu i ferch Blwyddyn 6 (11 oed) decstio llun ohoni ei hun yn fronnoeth, ond wedi ei gorchuddio, at ei chariad 12 oed (cyn-ddisgybl). Ni ddigwyddodd unrhyw weithred rywiol rhyngddynt cyn y digwyddiad hwn ar-lein nac all-lein. Canfuwyd y ddelwedd ar ffôn symudol y bachgen gan ei fam a ddileodd y ddelwedd, ac yna cysylltodd â rhieni'r ferch. Bu i rieni'r ferch gysylltu â'r ysgol i gael cyngor.

### Astudiaeth achos 3

Anfonodd merch 15 oed lun bronnoeth ohoni ei hun at ei chariad. Roedd hithau hefyd yn 15 oed. Ar ôl iddynt wahanu, bu i'r ferch anfon y llun at nifer o'i ffrindiau, a bu i nifer o'r rai a'i derbyniodd anfon y llun ymlaen at eraill. Daeth hyn i sylw'r ysgol pan fu i un person a dderbyniodd y llun ddweud wrth ei rieni. Erbyn hynny, roedd dros 200 o ddisgyblion wedi derbyn y llun.

### Astudiaeth achos 4

Bu i rieni merch 14 oed ganfod lluniau noeth ohoni ar ei dyfais symudol, a bu iddynt gysylltu â'r ysgol i gael cyngor. Cyfaddefodd ei bod wedi anfon y llun at ddyn 37 oed yr oedd wedi ei gyfarfod ar-lein. Dywedodd y ferch ei bod mewn cariad â'r troseddwr, oedd yn byw mewn rhan arall o'r wlad. Nid oedd y dioddefwr erioed wedi ei gyfarfod wyneb yn wyneb.

### Astudiaeth achos 5

Dywedodd merch 14 oed wrth y DSP iddi dderbyn llun o un o'i ffrindiau 13 oed yn noeth. Roedd ei ffrind wedi anfon y llun at fachgen, 15 oed, roedd yn ei hoffi i ddechrau, a oedd yn mynychu ysgol gyfagos.

### Astudiaeth achos 6

Bu i rieni disgybl 16 oed gysylltu â'r ysgol oherwydd bod bachgen yn blacmelio eu merch. Dywedodd y dioddefwr ei bod yn ddamweiniol wedi lanlwytho llun noeth ohoni ei hun ar safle rhwydwaith cymdeithasol. Pan sylweddolodd hynny, dileodd y ddelwedd, ond roedd bachgen o ysgol arall eisoes wedi ei lawrlwytho. Roedd yn bygwth ei rannu os na fyddai'n anfon mwy o luniau noeth ato. Pan wrthododd y ferch, bu i'r bachgen anfon y llun at tua 100 o bobl.

### **Astudiaeth achos 7**

Defnyddiodd merch 16 oed y rhyngwrwd i anfon lluniau rhywiol iawn ohoni ei hun at nifer o ddynion. Roedd yn defnyddio cyfrifiadur wedi ei ddwyn oherwydd bod ei rhieni wedi cymryd ei chyfrifiadur oddi wrthi. Bu i'w rhieni ddarganfod y trafodaethau ar-lein a chysylltu â'r ysgol i gael cyngor.

### **Astudiaeth achos 8**

Tynnodd merch 13 oed luniau rhywiol o'i thair chwaer iau (5, 6 ac 8 oed) a'u cyffwrdd yn rhywiol. Datgelodd cyd-ddisgybl yr wybodaeth hon i'w hathro dosbarth. Roedd gwasanaethau cymdeithasol plant wedi bod yn gweithio gyda'r teulu ers peth amser.

### **Astudiaeth achos 9**

Postiodd merch 14 oed o'r ysgol ddeunydd ohoni ei hun yn ei dillad isaf yn esgus ei bod yn cael rhyw drwy'r geg; nid oedd DSP yr ysgol wedi gweld hyn, ond cafodd wybod gan ddisgyblion. (Roedd y DSP mewn ysgol gyfagos wedi cysylltu i godi ymwybyddiaeth o 'gystadleuaeth' leol rhwng plant er mwyn gweld beth oedd y fideos mwyaf mentrus y gallent eu lanlwytho i wefannau cyfryngau cymdeithasol heb i rywun adrodd am y fideos ac iddynt gael eu tynnu oddi yno.) Pan godwyd y mater gyda'r disgybl, mynnodd nad oedd yn wir a'i bod yn gwisgo'i dillad yn y fideo.

### **Astudiaeth achos 10**

Bu i fachgen 16 oed oedd wedi cael ei fwlio yn yr ysgol a'i gellwair am ei 'anatomy gwrywaidd' dynnu llun o'i bidyn a'i anfon at gyd-ddisgybl benywaidd. Yn ei thro, bu i honno, heb ganiatâd, anfon y llun at bedair o ferched eraill. Datgelwyd y digwyddiad pan fu i athro gymryd ffôn symudol y bachgen a chanfod ei fod yn defnyddio'r llun fel arbedwr sgrin ar ei ffôn.

### **Astudiaeth achos 11**

Anfonodd bachgen 13 oed lun ohono'i hun yn mastyrbio at ddisgybl arall yn ei ddosbarth. Roedd hyn yn sioc i'r disgybl a rhannodd y ddelwedd gyda dau arall yn gofyn am eu cyngor ynghylch beth i'w wneud. Dangosodd un o'r disgyblion y ddelwedd i'w rieni, ac e-bostiwyd y ddelwedd ganddyn nhw at y tiwtor dosbarth yn yr ysgol yn mynnu bod rhywbeth yn cael ei wneud.

### **Astudiaeth achos 12**

Roedd dau fachgen 16 oed a oedd mewn perthynas wedi wynebu rhywfaint o ddifriio homoffobaidd ar-lein, gyda rhywun wedyn yn defnyddio '*photoshop*' i roi eu pennau ar ddelweddau pornograffig a rhannu'r delweddau hynny. Soniodd un o'r bechgyn wrth aelod o staff am yr hyn a ddigwyddodd ac eglurodd fod y ddau wedi cyfnewid delweddau noeth. Honnodd person ifanc arall fod ganddo gopi o'r ddelwedd (er nad oedd unrhyw brawf o hyn) ac roedd wedi bygwth ei rhannu. Roedd un o'r bechgyn yn poeni petai ei deulu yn dod i wybod am ei berthynas y gallai fod 'canlyniadau difrifol i'w ddau ohonom'.

### **Astudiaeth achos 13**

Anfonodd bachgen 15 oed luniau noeth o'i hun at dair merch wahanol yn ei ysgol, heb iddynt ofyn amdanynt. Dywedodd un o'r merched wrth ei hathro dosbarth.

**Astudiaeth achos 14**

Bu i ferch 17 oed bostio lluniau noeth ohoni ei hun ar wefan rhwydwaith cymdeithasol. Bu i'r wefan glustnodi'r delweddau fel delweddau posibl o gam-drin plant, eu dileu ac adrodd am y digwyddiad i NCA-CEOP, a gyfeiriodd yr achos i'r heddlu lleol. Bu i'r heddlu gysylltu â'r ysgol a siarad â'r ferch, ond ni chafodd ei chyhuddo.

**Astudiaeth achos 15**

Bu i ferch 11 oed dynnu llun o'i bronau gyda'i ffôn symudol. Bu i'w nain a'i thaid (ei mamgu a'i thadcu) ddarganfod y delweddau, heb sylwi mai lluniau o'u wyres oeddynt ac aethant â'r ffôn i'r ysgol. Pan holwyd y ferch, bu iddi gyfaddef ei bod wedi tynnu lluniau ohoni ei hun, ond nad oedd wedi eu hanfon at neb.

### Taflen adnoddau 3 – Ymateb

Astudiaeth achos – teipoleg	Sylwadau	Ymateb
1 –		
2 –		
3 –		
4 –		
5 –		
6 –		
7 –		
8 –		
9 –		
10 –		
11 –		
12 –		
13 –		
14 –		

15 -		

## **Atodiad C: Astudiaethau achos yr NSPCC**

### **Astudiaeth achos 1: Stori Megan**

#### **Crynodeb**

Yn sgil seiberfwlio a bwlio corfforol gan ei chyfoedion, dechreuodd Megan niweidio ei hun, teimlo gorbryder, a pheidio â bwyta'n iawn.

Felly, pan wnaeth symud o un ysgol uwchradd i un arall ar ddiwedd Blwyddyn 9, yn 13 oed, roedd yn meddwl y byddai'n gyfle i ddechrau eto.

Gwnaeth ffrindiau'n gyflym a chael ei hychwanegu at gyfrifon cyfryngau cymdeithasol pobl.

Ond newidiodd ei byd yn llwyr pan wnaeth bachgen roedd wedi bod yn anfon negeseuon ato ofyn iddi anfon llun ohoni'n noeth ato.

O fewn 24 awr i anfon y llun ar Snapchat, roedd y rhan fwyaf o'r ysgol wedi'i weld, a dechreuodd gael ei bwlio.

Dywed i Childline achub ei bywyd droeon.

#### **Astudiaeth achos llawn**

Cefais i blentyndod hapus iawn ond pan es i i'r ysgol uwchradd dechreuodd pethau ddirywio.

Gwnaeth grŵp o ryw bum merch roeddwn i'n ffrindiau â nhw ym Mlwyddyn 8 pan oeddwn i'n 12 oed droi arnaf dros nos. Roedden nhw'n anfon negeseuon testun ffaidd ata i, cyn dechrau fy mwlio ar-lein drwy apiau fel Facebook. Roedd hi'n ymddangos fel petai'r flwyddyn ysgol i gyd yn rhan o hyn, ac yna dechreuodd bachgen fy mwlio i'n gorfforol.

Roedd fy chwaer a'm mam yn gwybod am y bwlio, ac fy mod i'n dioddef o orbryder, a ddim yn bwyta'n iawn o'r herwydd. Ond, doedden nhw ddim yn gwybod fy mod i'n niweidio fy hun. Er mwyn fy helpu i ymdopi, fe fyddwn i'n ymweld â gwefan Childline yn aml, gan sgwrsio â chwyselwyr ar-lein.

Ar ôl tua blwyddyn o fwlio, daeth fy rhieni i wybod fy mod i'n niweidio fy hun, a chefais help.

Wrth imi weld seiciatrydd plant, a chael therapi gwybyddol ymddygiadol (CBT), y dywedais i wrtho nad oeddwn i'n gallu ymdopi â'r bwlio ddim mwy. Felly, ar ddiwedd Blwyddyn 9, yn 13 oed, symudais i ysgol arall.

Ar fy niwrnod cyntaf roeddwn i'n nerfus iawn, ond roedd pawb mor neis ac roedd llwyth o bobl yn fy ychwanegu i ar y cyfryngau cymdeithasol, fel ein bod ni'n gallu cadw mewn cysylltiad dros yr haf.



Dyma fi'n ychwanegu bachgen oedd flwyddyn yn hŷn na fi ar y cyfryngau cymdeithasol. Doeddwn i byth wedi siarad ag ef ond fe fydden ni'n gwenu ar ein gilydd yn y coridorau.

Ar ôl gwyliau'r haf, fe ddechreuodd anfon negeseuon testun ata i a negeseuon ar Facebook, Instagram a Snapchat. Ef oedd y bachgen cyntaf i ddangos unrhyw ddi-ddordeb ynof ac roedd hynny'n braf.

Roedden ni'n anfon negeseuon at ein gilydd drwy'r amser am tua pythefnos. Wedyn, un noson, gofynnodd am gael llun ohona i'n noeth. Dywedais i na.

Am bedwar diwrnod bu'n gofyn ddydd a nos. Dywedodd y byddai'n dweud wrth bawb fy mod i'n '*frigid*' fel arall.

Dim ond ers pedair wythnos roeddwn i wedi bod yn yr ysgol ac roeddwn i'n benderfynol y byddai pawb yn fy hoffi ac y byddwn i'n ffitio i mewn, felly yn y diwedd fe anfonais i lun ohonof i'n gwbl noeth drwy Snapchat.

Roeddwn i'n gallu gweld ei fod wedi ei agor a doedd dim arwydd ei fod wedi cymryd sgrinlun, a oedd yn rhyddhad. Tua awr yn ddiweddarach fe ymddangosodd neges. Pan agorais i'r neges, gwelais lun o ferch yn fy mlwyddyn gyda'r geiriau 'Haha wedi dy ddal di'.

Roedd hi'n cadw i fy ffonio ond wnes i ddim ateb. Yna ces i neges wrthi yn dweud os na fydden ni'n ateb y byddai'n dangos y llun i bawb. Roedd hi wedi tynnu llun o'r ddelwedd roeddwn i wedi'i hanfon at ei ffôn ac roedd wedi bod yn defnyddio ffôn symudol y bachgen a'i gyfrifon cyfryngau cymdeithasol i gyfathrebu â mi. Fe wnes i gynhyrfu a diffodd y ffôn gan feddwl y byddai'n diflannu.

Fore drannoeth roedd gen i lwyth o negeseuon testun. Dyma fi'n eu hanwybyddu nhw ac yn mynd i'r ysgol, ond cyn gynted ag y cyrhaeddais dechreuodd pobl gasglu o'm cwmpas gyda'u ffonau a'r llun ohonof ar y sgrin, a chopïau wedi'u hargraffu.

Yn ystod y gwersi byddai pobl yn taflu pethau ataf gyda'r geiriau 'slwten', 'hwren', 'slag', 'putain', a '*stripper*' arnyn nhw.

Fy ffrind gorau wnaeth fy narbwyllio i ddweud wrth fy nhiwtor. Yn anffodus gwnaeth i mi deimlo mai fi oedd ar fai am anfon y ddelwedd.

Cafodd hyn effaith ofnadwy ar fy iechyd meddwl – fe ddechreuais i niweidio fy hun eto, ddim bwyta'n iawn a chadw draw wrth bawb.

Unwaith eto fy wnes i droi at Childline i'm helpu i ymdopi. Heb Childline, nid wyf yn meddwl y byddwn i'n fyw heddiw, oherwydd roedd yna adegau pan wnes i deimlo fy mod i ar fin lladd fy hun.

Mae pethau'n dda nawr. Cefais i ganlyniadau TGAU a Safon Uwch da, a nawr rwy'n astudio ar gyfer gradd newyddiaduraeth yn y brifysgol.

Er fy mod i wedi adrodd am y llun wrth Snapchat a'r heddlu ni chafwyd gafael arno, ac rwy'n dal i boeni y gallai ymddangos eto rywbyrd.

Er mwyn helpu i godi ymwybyddiaeth o secstio – rhannu delweddau neu fideos rhywiol, noeth neu hanner noeth ag eraill – rwy'n cynnal sgysiau am fy mhrofiad mewn ysgolion, a digwyddiadau elusenol a digwyddiadau'r llywodraeth, ynghyd â sesiynau hyfforddi'r heddlu, er mwyn eu helpu i ddeall y ffordd orau o drin achosion tebyg.

Os gallaf helpu un person drwyddi bydd yn werth chweil.

## **Astudiaeth achos 2: Stori Eleanor**

### **Crynodeb**

Roedd Eleanor yn 14 oed pan ofynnodd ei chariad am luniau rhywiol iawn ganddi. Cytunodd i anfon tri llun noeth ato, a hithau'n teimlo'n ddiogel oherwydd bod lluniau yn diflannu'n awtomatig ar Snapchat. Pan ddaeth y berthynas i ben, gwnaeth droi pawb yn ei herbyn; cafodd Eleanor ei hanwybyddu yn yr ysgol a gwaethygodd ei hiechyd meddwl. Dechreuodd golli ei gwallt, a chafodd ei diagnosisio â straen, gorbryder a ffobia o'r ysgol. Roedd y bwlio mor wael fel y bu'n rhaid i'w rhieni ei symud i ysgol breifat a dechreuodd pethau wella, nes i'w chyn-gariad rannu'r lluniau ar-lein. Ceisiodd Eleanor anwybyddu'r broblem am ddeufis gan obeithio y byddai'n diflannu, wrth i'r lluniau gael eu rhannu'n eang. Yn y diwedd gwnaeth adroddiad i NCA-CEOP a gysylltodd â'i hysgol, a wnaeth wedyn gysylltu â'i rhieni a'u cynghori i ffonio'r heddlu. Gwnaethant hynny, ac arestiwyd pobl ond ni chyhuddwyd neb. Mae Eleanor wedi cael llawer o sesiynau cwnsela ac mae'n ailadeiladu ei bywyd.

## Atodiad Ch: Siart lif ar gyfer ymateb i ddigwyddiadau

### Datgeliad cychwynnol

Gall dysgwr wneud hynny'n uniongyrchol, neu riant/gofalwr, neu ffrind y dysgwr.

### Adolygiad cychwynnol gyda'r DSP a'r uwch-dîm

Yn ystod y cam cychwynnol hwn, mae'r tîm diogelu yn adolygu'r wybodaeth ac yn ystyried y pum pwynt ar gyfer atgyfeirio ar unwaith. Maent yn gwneud penderfyniad cychwynnol ynghylch a ellir delio â'r digwyddiad yn fewnol. Ceisiwch gymorth gan swyddog heddlu cymunedol yr ysgol.  
(Am fwy o wybodaeth gweler tudalen 19)

**Aseiad risg/delio â'r digwyddiad** Ystyriwch y risg o niwed, ac ar unrhyw adeg os oes yna 'achos pryder' gallwch atgyfeirio i'r heddlu/gofal cymdeithasol  
(I gael mwy o wybodaeth ewch i dudalen 13 ac Atodiad A)

### Rheoli mewn lleoliad

Sicrhewch fod y rhieni/gofalwyr yn cael eu hysbysu a bod y digwyddiad yn cael ei gofnodi gan ddilyn yr holl weithdrefnau amddiffyn a diogelu plant.  
(Am fwy o wybodaeth gweler tudalen 24)

### Pum pwynt atgyfeirio

1. Cyfranogiad oedolyn
2. Gorfodaeth neu flacmel
3. Eithafol neu dreisgar
4. O dan 13
5. Risg uniongyrchol o niwed  
(I gael mwy o wybodaeth ewch i adran 2)

### Atgyfeirio i'r heddlu/gwasanaethau

**cymdeithasol/MASH** Cyfeiriwch at eich trefniadau lleol ar gyfer delio â digwyddiadau a chysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol.  
(I gael mwy o wybodaeth ewch i dudalen 20 a 27)

Ystyriaethau – aseiad risg

- Pa mor agored i niwed yw'r plentyn
- Gorfodaeth
- Sut y rhannwyd ac ym mhle
- Effaith ar blant
- Oedran y plant  
(I gael mwy o wybodaeth gweler Atodiad A)

## Ymwrthodiad

Ystyriwyd deddfau perthnasol ac arferion gorau wrth ddatblygu'r ddogfen hon. Fodd bynnag, mae gan y materion hyn y posibilrwydd o fod yn rhai cymhleth ac amlweddog. Mae cyfraith achos yn y maes hwn yn dal yn eithaf annatblygedig, ac ni ddylid ystyried bod unrhyw beth yn y ddogfen hon yn gyngor cyfreithiol.

Nid yw awduron y ddogfen hon na chyfranwyr eraill yn derbyn dim atebolrwydd am unrhyw ddifrod neu golled a ddioddefir neu a ysgwyddir naill ai'n uniongyrchol, yn ganlyniadol, yn anuniongyrchol neu fel arall gan unrhyw un sy'n dibynnu ar y wybodaeth yn y cyhoeddiad hwn neu unrhyw wybodaeth y cyfeirir ati ynddo.

Roedd cyfeiriadau gwefannau, rhwydweithiau cymdeithasol a chyfeiriadau eraill yn y ddogfen hon yn gywir ar adeg ei chyhoeddi, ond gallant fod yn destun newidiadau gydag amser.

Mae Gweithgor Addysg UKCIS yn cynnwys y sefydliadau canlynol:

